WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

25 Mawrth 2014
www.wao.gov.uk

# Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru



Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yr aelodau o staff yn Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd wrth baratoi'r adroddiad hwn oedd Ben Robertson, Ena Lloyd, Jeremy Morgan ac Andy Philips o dan arweiniad Paul Dimblebee.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae yntau'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyfl wyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyfl awni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfi aeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyfl wyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2014

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhiad i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn.

Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

**Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 25 Mawrth 2014**



50% recycled paper
50% o bapur a ailgylchwyd

# Cynnwys


Crynodeb 6

Argymhellion 12

1 Roedd amcanion clir i'r Strategaeth Leoli, ond ni sefydlodd Llywodraeth Cymru drefniadau llywodraethu effeithiol nes 2008 a rhoddodd amcangyfrif rhy isel o gost y Rhaglen 15

Amcan eglur Llywodraeth Cymru oedd cynyddu cyfran y staff a weithiai y tu allan i Gaerdydd, ond llesteiriwyd y gwaith o gynllunio'r gweithlu gan gyfyngiadau ar wybodaeth am niferoedd staff, y sylw cyfyngedig i opsiynau o ran adeiladau, ac amcangyfrif rhy isel o gostau'r Rhaglen 15

Ni sefydlodd Llywodraeth Cymru drefn lywodraethu effeithiol dros y Rhaglen nes 2008 21

Yn ei 10 mlynedd gyntaf, mae Rhaglen y Strategaeth Leoli wedi costio dros £91 miliwn i'w darparu, ond heb amcangyfrifon cadarn o gyfanswm cost y Rhaglen, mae'n anodd pennu a gafodd ei darparu mewn modd cost-effeithiol 25

2 Darparodd Llywodraeth Cymru yr adeiladau swyddfa newydd i'r safon ddisgwyliedig ac o fewn y costau a gontractiwyd, ond wynebodd anawsterau wrth adleoli swyddi i'r swyddfeydd newydd 28

Darparodd Llywodraeth Cymru yr adeiladau swyddfa newydd i'r safon ddisgwyliedig ac o fewn y costau a gontractiwyd 28

Wynebodd Llywodraeth Cymru anhawster wrth adleoli swyddi i'r swyddfeydd newydd 33

## 3 Er bod llai o weithwyr nag a fwriadwyd wedi adleoli ac er nad yw Llywodraeth Cymru bellach yn monitro'r holl fanteision, mae Rhaglen y Strategaeth Leoli wedi sicrhau amryw o fanteision 43

Mae'r Rhaglen wedi cynyddu canran y staff sy'n gweithio y tu allan i Gaerdydd, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi adleoli cymaint o weithwyr ag a fwriadwyd 43

Ni ddatblygodd Llywodraeth Cymru drefniadau cadarn i wireddu manteision y Rhaglen nes 2009, ac nid yw bellach yn monitro'r broses o wireddu'r holl fanteision sy'n parhau 46

Mae Rhaglen y Strategaeth Leoli wedi sicrhau amryw o fanteision 47

## Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg 56

Atodiad 2 – Llinell amser 58

Atodiad 3 – Argymhellion adroddiad y Strategaeth Adleoli 61

Atodiad 4 – Prosiectau cleient y strategaeth leoli 63

Atodiad 5 – Manteision y Strategaeth Leoli 64

# Crynodeb

1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad Strategaeth Adleoli yn 2002. Yn unol â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd ar ôl datganoli, anelai'r Strategaeth i ddatganoli gwasanaethau o Gaerdydd a'u dwyn yn agosach at bobl Cymru. Yn ganolog i Raglen y Strategaeth Leoli ('y Rhaglen') ar gyfer cyflawni'r Strategaeth, roedd adeiladu tri adeilad swyddfa newydd ym Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Roedd hefyd yn cynnwys adleoli swyddi a symud staff i'r swyddfeydd newydd.

2 Cyflawnodd Llywodraeth Cymru y Rhaglen mewn cyfnod o newid sylweddol, yn cynnwys uno pedwar Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC) yn rhan o Lywodraeth Cymru yn 2006, a cholli dros 1,000 o aelodau o staff drwy gynlluniau diswyddo gwirfoddol rhwng 2008 a 2012. Cwblhaodd Llywodraeth Cymru y Rhaglen ym mis Rhagfyr 2011, bron 10 mlynedd ar ôl ei dechrau, am gost o £91.5 miliwn ac adleoli 553 o swyddi Llywodraeth Cymru o Gaerdydd.

3 Mae'r adroddiad hwn yn archwilio i ba raddau y mae Rhaglen y Strategaeth Leoli wedi cyflawni ei hamcanion mewn ffordd sy'n cynnig gwerth am arian. Rydym wedi nodi ein methodoleg yn Atodiad 1. Yn Atodiad 2, ceir llinell amser sy'n dangos y digwyddiadau mwyaf arwyddocaol yn ystod y Rhaglen.

4 Daethom i'r casgliad fod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni amcanion y Strategaeth Leoli, ond bod gwerth am arian y Rhaglen yn gyffredinol yn ansicr. Y rheswm am hyn yw, er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu'r adeiladau swyddfa newydd i'r safon ddisgwyliedig ac o fewn y costau a gontractiwyd, sylw cyfyngedig a roddodd i opsiynau amgen o ran adeiladau, ni chafwyd amcangyfrifon digon cadarn o gost y rhaglen, ac ni chaiff y modd y gwireddir manteision parhaol y Rhaglen ei fonitro bellach.

## Roedd amcanion clir i'r Strategaeth Leoli, ond ni sefydlodd Llywodraeth Cymru drefniadau llywodraethu effeithiol nes 2008 a rhoddodd amcangyfrif rhy isel o gost y Rhaglen

5 **Amcan eglur Llywodraeth Cymru oedd cynyddu cyfran y staff a weithiai y tu allan i Gaerdydd, ond llesteiriwyd y gwaith o gynllunio'r gweithlu gan gyfyngiadau ar wybodaeth am niferoedd staff, y sylw cyfyngedig i opsiynau o ran adeiladau, ac amcangyfrif rhy isel o gostau'r Rhaglen.** Ym mis Hydref 2011, cytunodd Llywodraeth Cymru ar egwyddorion ar gyfer adolygu adeiladau swyddfa Llywodraeth Cymru, ac ym mis Awst 2002, cynhyrchodd yr adroddiad ar y *Strategaeth Adleoli*. Argymhellodd yr adroddiad darged i adleoli y tu allan i Gaerdydd o leiaf 400 o staff presennol Llywodraeth y Cynulliad yng Nghaerdydd. Ar adeg llunio'r adroddiad, er hynny, cyfyngedig oedd y wybodaeth am niferoedd staff ac nid oedd data canolog Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n bosibl cynllunio'r gweithlu'n drylwyr. Yn sgîl asesiad o safleoedd a lleoliadau posibl, penderfynodd Llywodraeth Cymru adeiladu tair swyddfa newydd, ym Merthyr Tudful. Aberystwyth a Chyffordd Llandudno.



6 Ni aeth Llywodraeth Cymru ati i lunio gwerthusiad llawn o'r opsiynau amgen yn hytrach na sefydlu tair swyddfa ranbarthol fawr newydd, felly mae'n aneglur a fyddai opsiynau amgen wedi cynnig mwy o werth am arian. Er nad oedd adroddiad y *Strategaeth Adleoli* yn cynnwys opsiynau ynglŷn â sut i gyflawni'r broses o adleoli swyddi o Gaerdydd, ni roddodd Llywodraeth Cymru ystyriaeth lawn wedyn i opsiynau amgen yn hytrach nag adeiladu'r tair swyddfa newydd. Roedd Achos Busnes Strategol y Rhaglen, a ddatblygwyd yn 2004, yn cynnwys asesiad cryno o rai opsiynau amgen, ond ni arfarnodd gostau a manteision yr opsiynau amgen fel y mae Llyfr Gwyrdd y Trysorlys[1] yn ei argymell.

7 Roedd yr arfarniadau ariannol yn gadarn at ei gilydd ond roedd amcangyfrif Llywodraeth Cymru o gost cyflawni'r Rhaglen yn rhy isel. Costiodd pob un o'r tri phrosiect adeiladu fwy i'w cyflawni nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol yn yr achosion busnes, gan olygu bod yr amcangyfrif o gyfanswm cost y Rhaglen dros 20 mlynedd wedi codi o £137.4 miliwn yn 2004 i £171 miliwn yn 2006. Gwelsom na chynhaliwyd ailasesiad ar unrhyw gam i gadarnhau mai adeiladu'r tair swyddfa ranbarthol oedd yr opsiwn gorau o hyd. Mae'n bosibl y byddai ailasesu opsiynau wedi bod o fudd arbennig pan unodd y pedwar CNLC â Llywodraeth Cymru yn 2006 ac adeg oedi prosiect swyddfa Cyffordd Llandudno ym mis Medi 2007. Fodd bynnag, ar ôl dewis safleoedd ar gyfer y swyddfeydd newydd, fe gynhaliodd Llywodraeth Cymru arfarniadau ariannol o gost a budd pob un o'r adeiladau newydd, er nad oedd yr arfarniadau'n rhoi ystyriaeth ddigonol i duedd optimistiaeth, chwyddiant adeiladu, a newidiadau i'r fanyleb yn sgîl hynny.

8 **Ni sefydlodd Llywodraeth Cymru drefn lywodraethu effeithiol dros y Rhaglen nes 2008.** Canfu *Adolygiad Gateway*[2] ym mis Ebrill 2003 wendidau yn nhrefn lywodraethu'r Rhaglen. Ym mis Gorffennaf 2003, adolygodd Llywodraeth Cymru ei threfniadau llywodraethu a gwnaeth adnoddau dynol yn rhan ganolog o'r Rhaglen er mwyn sicrhau bod y swyddfeydd newydd yn bodloni anghenion cwsmeriaid, a'r swyddi a staff a leolwyd ym mhob adeilad. Roedd rhannu'r Rhaglen yn brosiectau ar wahân yn y ffordd hon yn arfer da.

9 Nododd adolygiadau Gateway dilynol rhwng 2005 a 2008 ddiffygion pellach o ran llywodraethu. Yn dilyn adolygiad 2008, a oedd yn feirniadol iawn o'r modd y câi'r Rhaglen ei llywodraethu, aeth Llywodraeth Cymru ati i ad-drefnu Bwrdd y Rhaglen, gan arwain at ddarparu'r rhaglen mewn modd mwy integredig a chytbwys drwy gyfrwng timau prosiect yn cynnwys y sgiliau iawn. O ran y prosiectau unigol a'r Rhaglen yn ei chyfanrwydd, cryfhaodd Llywodraeth Cymru y defnydd o dechnegau rheoli prosiect a chynhyrchodd ddogfennau'n nodi'r gwersi a ddysgwyd.

10 **Yn ei 10 mlynedd gyntaf, mae Rhaglen y Strategaeth Leoli wedi costio dros £91 miliwn i'w darparu, ond heb amcangyfrifon cadarn o gyfanswm cost y Rhaglen, mae'n anodd pennu a gafodd ei darparu mewn modd cost-effeithiol.** Rydym wedi amcangyfrif fod Llywodraeth Cymru wedi gwario dros £91 miliwn ar y Rhaglen rhwng 2002 a 2011. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw amcangyfrifon cadarn o gyfanswm y gost o ddarparu'r Rhaglen, ac ni aeth Llywodraeth Cymru ati fel mater o drefn i fonitro ac adrodd ar wariant cyffredinol y rhaglen nes y gwnaed newidiadau i drefn lywodraethu'r Rhaglen yn 2008. Amcangyfrif diwethaf Llywodraeth

1 Canllaw yw Llyfr Gwyrdd y Trysorlys ar gyfer arfarnu a gwerthuso pob polisi, rhaglen a phrosiect. Mae'n nodi'r camau allweddol yn y gwaith o ddatblygu cynnig o fynegi'r sail resymegol dros ymyrryd a gosod yr amcanion, i arfarnu opsiynau, ac yn y pen draw, i weithredu a gwerthuso.

2 *Adolygiad Gateway o'r Strategaeth Leoli*, Llywodraeth Cymru, 2003.

Cymru o gyfanswm cost y Rhaglen, ym mis Awst 2008, oedd £85.6 miliwn. Er bod y broses o fonitro costau pob prosiect adeiladu wedi gwella ers 2008, heb amcangyfrif cadarn o gyfanswm cost y Rhaglen ar y cychwyn, nid oes modd pennu i ba raddau roedd gwariant Llywodraeth Cymru o £91.5 miliwn yn werth da am arian.

## Darparodd Llywodraeth Cymru yr adeiladau swyddfa newydd i'r safon ddisgwyliedig ac o fewn y costau a gontractiwyd, ond wynebodd anawsterau wrth adleoli swyddi i'r swyddfeydd newydd

11 **Darparodd Llywodraeth Cymru yr adeiladau swyddfa newydd i'r safon ddisgwyliedig ac o fewn y costau a gontractiwyd.** Oherwydd diffyg cyllid cyfalaf, penderfynodd Llywodraeth Cymru gyllido prosiect swyddfa Merthyr Tudful drwy gytundeb prynu ar brydles ddrutach. Ym mis Mai 2004, heb archwilio opsiynau eraill megis rhannu adeiladau swyddfa neu ddefnyddio adeilad a fodolai'n barod, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gytundeb prynu ar brydles a gostiai £1.3 miliwn y flwyddyn am 15 mlynedd o fis Rhagfyr 2006 ymlaen. Wedi i'r cytundeb prynu ar brydles ddod i ben, mae disgwyl mai £29.3 miliwn fydd cyfanswm cost prosiect Merthyr Tudful, £400,000 o dan y gyllideb. Bydd Llywodraeth Cymru yn caffael yr adeilad yn 2021, pan ddaw'r brydles i ben, am swm nominal o £1.

12 Cyflawnodd Llywodraeth Cymru brosiect adeiladu Aberystwyth ar amser ac o dan gost darged y contract o £20.8 miliwn. Yn 2004, amcangyfrifodd achos busnes y prosiect y byddai'r prosiect yn costio £12.4 miliwn, ond gwnaed yr amcangyfrif cyn yr ymarfer tendro, ac mae'n seiliedig ar addasiad o gostau prosiect Merthyr Tudful yn hytrach nag ar ddyluniad manwl. Ar gamau cynnar y prosiect, cytunodd Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion ar ymarfer caffael ar y cyd ar gyfer dylunio ac adeiladu dwy swyddfa ochr yn ochr. Er nad oedd yr hysbyseb yng nghyfnodolyn swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, yr OJEU[3], ym mis Rhagfyr 2005 yn cynnwys amcangyfrif o gost, ac amlinelliad o ddyluniad y ddau adeilad yn unig, amcangyfrifodd y Cyngor a Llywodraeth Cymru y byddai'r adeiladau'n costio tua £13.5 miliwn yr un.

13 Ym mis Medi 2006, pan ddyfarnodd Llywodraeth Cymru a'r Cyngor eu contract dylunio i Carillion, amcangyfrifwyd - unwaith eto ar sail dyluniad anghyflawn - y byddai adeilad Llywodraeth Cymru yn costio £14.7 miliwn. Fodd bynnag, wrth i'r dyluniad ddatblygu ymhellach, cynyddodd yr amcangyfrif o gost y ddau adeilad gan agosáu at £20 miliwn. Ym mis Mehefin 2007, penderfynodd y Cyngor na allai fforddio adeiladu yn ôl dyluniad Carillion, a phenododd gontractwr gwahanol i adeiladu ei swyddfeydd yn ôl manyleb gryn dipyn yn fyrrach. Cwblhawyd swyddfeydd y Cyngor ym mis Mehefin 2009. Dywedodd y Cyngor wrthym mai cost derfynol y gwaith adeiladu oedd £15.4 miliwn.

14 Parhaodd y contract rhwng Llywodraeth Cymru a Carillion ar adeilad mwy o faint a manyleb fwy penodol na'r cynllun a brynwyd gan y Cyngor. Cytunwyd ar bris targed o £21 miliwn. Cwblhaodd Carillion y gwaith ar swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2009, am £20.8 miliwn.

15 Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad i gymharu cost adeiladu ei swyddfeydd newydd â chost swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion. Fodd bynnag, ni chafodd y tîm adolygu weld unrhyw ddata ffynhonnell naill ai ar y fanyleb na chost derfynol adeiladu swyddfeydd y Cyngor, a bu'n rhaid iddo seilio'i gymhariaeth ar sylwadau a wnaed yn ystod ymweliadau safle. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y gellid

3 Cyhoeddir cyfnodolyn swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar-lein ac mae'n cynnwys hysbysiadau, ynghyd â gwahoddiadau i dendro, hysbysiadau gwybodaeth ymlaen llaw, systemau cymwysterau a hybysiadau dyfarnu contractau.



priodoli'r rhan fwyaf o'r gwahaniaeth yn y gost i wahaniaethau yn y dyluniad. Ond am mai cyfyngedig oedd y wybodaeth oedd ar gael iddo am gostau'r Cyngor, ni fu modd i'r adolygiad fesur gwerth y gwahaniaeth rhwng y dyluniadau.

16 Ar ôl dechrau anodd, penderfynodd Llywodraeth Cymru ail-gaffael y contract ar gyfer swyddfa Cyffordd Llandudno, gan arwain at dorri £10 miliwn oddi ar gost ragamcanol y prosiect. Ym mis Mai 2006, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract gwasanaethau proffesiynol ar gyfer dylunio swyddfeydd Cyffordd Llandudno, gyda'r contract adeiladu i'w drafod ar ôl cwblhau'r dyluniad. Amcangyfrifwyd ar y pryd y byddai'r gost adeiladu yn £13.5 miliwn. Ar ôl cwblhau'r gwaith dylunio, amcangyfrifodd ymgynghorwyr costau Llywodraeth Cymru y byddai'r adeilad a'r holl osodiadau a ffitiadau yn costio dros £30 miliwn ac y byddai'r prosiect yn cymryd 30 wythnos yn ychwanegol i'w gyflawni. Gwelodd Llywodraeth Cymru fod newidiadau a gwelliannau dylunio niferus i'r fanyleb, ynghyd â'i methiant ei hun i gydgysylltu'r broses ddylunio'n effeithiol, wedi cyfrannu at gynyddu'r gost amcangyfrifedig ac ymestyn amserlen y prosiect.

17 Ym mis Medi 2007, ar ôl i'r contract gwasanaethau proffesiynol ar gyfer dylunio'r adeilad ddod i ben, penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â dyfarnu'r contract adeiladu i'r un contractwr. Ar ôl oedi ac adolygu, ac ymarfer ail-gaffael, ym mis Hydref 2008 dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract dylunio ac adeiladu newydd i gontractwr newydd am gost amcangyfrifedig o £20.8 miliwn. Roedd y contract yn cynnig mwy o sicrwydd costau i Lywodraeth Cymru, a chwblhaodd y contractwyr y prosiect ym mis Ebrill 2010 am £20.78 miliwn.

18 **Wynebodd Llywodraeth Cymru anhawster wrth adleoli swyddi i'r swyddfeydd newydd.** Cynhaliwyd Rhaglen y Strategaeth Leoli dros gyfnod o newid gweinyddol o fewn Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, ym mis Ebrill 2006 unodd pedwar CNLC â Llywodraeth Cymru[4] gan ychwanegu 1,400 at nifer y staff a chynyddu maint yr ystâd yn sylweddol. O ganlyniad i'r uno, cynyddodd Llywodraeth Cymru faint a chapasiti ei swyddfeydd yng Nghyffordd Llandudno ac Aberystwyth. Hefyd, effeithiodd newidiadau eraill, yn cynnwys ailstrwythuro adrannol a lleihau nifer y staff drwy ddiswyddo gwirfoddol, ar allu Llywodraeth Cymru i adleoli swyddi a staff yn ôl y bwriad.

19 Ymgynghorwyd yn eang â staff ynglŷn â'r rhannau o'r Strategaeth a allai effeithio arnynt, er bod yr ymgynghoriad wedi arwain at rai costau ychwanegol ac oedi yn y broses o ddylunio adeilad Aberystwyth. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i ymgynghori â staff yn cynnwys cyfarfodydd, ymweliadau safle, holiaduron a gweld modelau o'r swyddfeydd arfaethedig. Hefyd, aeth uwch reolwyr ati i gynnwys staff yn y broses o enwi ystafelloedd cyfarfod a dewis gwaith celf, a chynhaliwyd trafodaethau un i un â staff a glustnodwyd ar gyfer eu hadleoli.

20 Golygodd y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi adleoli dwy isadran i swyddfa Merthyr Tudful fod defnydd bron yn llawn yn cael ei wneud o'r adeilad, ond roedd y costau'n sylweddol. Ym mis Ionawr 2007, symudodd 451 o weithwyr i'r swyddfa newydd, gyda 79 y cant o'r staff wedi'u trosglwyddo o swyddfeydd yng Nghaerdydd. Roedd cyfanswm cost prosiect Merthyr Tudful yn cynnwys £2.9 miliwn ar becynnau adleoli staff, gyda £2.1 miliwn ohono'n gostau teithio ychwanegol. Penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai'n talu cymhorthdal i gostau teithio ychwanegol

4 Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Dysgu ac Addysgu Cymru ac Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru.

am bum mlynedd yn hytrach na'r cyfnod safonol o dair blynedd am fod cymaint o wrthwynebiad gan staff yn sgîl symud o'u swyddfeydd yng Nghaerdydd i Ferthyr Tudful.

21 **Wynebwyd anawsterau arbennig wrth adleoli swyddi i Aberystwyth a Chyffordd Llandudno yn sgîl newidiadau cyson i'r swyddi a nifer y staff y disgwylid iddynt adleoli.** Fodd bynnag, mae'r defnydd o swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno wedi cynyddu dros amser. Ym mis Rhagfyr 2013, roedd 392 o weithwyr yn swyddfa Aberystwyth (cyfradd defnydd o 70 y cant ar sail wyth gweithfan i 10 o bobl) a 571 yn swyddfa Cyffordd Llandudno (cyfradd defnydd o 88 y cant ar sail wyth gweithfan i 10 o bobl).

22 Un o'r prif resymau pam y cafodd llai o swyddi eu hadleoli i swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno pan agorwyd yr adeiladau oedd bod mwy na 1,000 o weithwyr wedi gadael Llywodraeth Cymru drwy ddiswyddiadau gwirfoddol. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys ad-drefnu isadrannau ac adrannau, newid meddwl ynglŷn â'r angen i rai swyddi aros yng Nghaerdydd a diffyg ymgysylltiad a brys ar ran swyddogion ac arweinwyr adrannol i glustnodi a symud swyddi. Er mwyn mynd i'r afael â'r tanddefnydd sylweddol o swyddfa Cyffordd Llandudno, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ddefnyddio peth o'r lle sydd ar gael.

## Er bod llai o weithwyr nag a fwriadwyd wedi adleoli ac er nad yw Llywodraeth Cymru bellach yn monitro'r holl fanteision, mae Rhaglen y Strategaeth Leoli wedi sicrhau amryw o fanteision

23 **Mae'r Rhaglen wedi cynyddu canran y staff sy'n gweithio y tu allan i Gaerdydd, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi adleoli cymaint o weithwyr ag a fwriadwyd.** In Yn 2011, newidiodd Llywodraeth Cymru ei tharged o 'nifer y staff a drosglwyddwyd i'r swyddfeydd newydd' i 'gynyddu canran y swyddi a leolir y tu allan i Gaerdydd' erbyn 2012.[5] Ym mis Ebrill 2012, roedd 53 y cant o swyddi Llywodraeth Cymru wedi'u lleoli y tu allan i Gaerdydd. Er bod hyn yn is na'r targed a osodwyd, mae cyfran y swyddi y tu allan i Gaerdydd yn gynnydd sylweddol o linell sylfaen 2002 o 23 y cant. Pan oedd cyfraddau defnydd yn isel, roedd costau uned (am bob aelod o staff cyfwerth ag amser llawn) yn swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd ystâd Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

24 **Ni ddatblygodd Llywodraeth Cymru drefniadau cadarn i wireddu manteision y Rhaglen nes 2009, ac nid yw bellach yn monitro'r broses o wireddu'r holl fanteision sy'n parhau.** Nododd Llywodraeth Cymru fanteision posibl Rhaglen y Strategaeth mewn nifer o ddogfennau. Fodd bynnag, roedd y manteision a restrwyd yn y dogfennau hyn yn wahanol iawn i'w gilydd, ac yn ystod chwe blynedd gyntaf y Rhaglen, nid oedd gan Lywodraeth Cymru ddull o reoli'r gwaith o wireddu manteision yn unol ag arfer da. Nododd Adolygiad Gateway yn 2008 ddiffyg perchnogaeth ar broses reoli manteision y Rhaglen. Yn 2009, mewn ymateb i'r adolygiad,

5 Targed Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer y staff i'w trosglwyddo i'r swyddfeydd newydd oedd 400 ar ddechrau'r Strategaeth Leoli yn 2002. Newidiodd Llywodraeth Cymru y targed yn yr Achos Busnes Llawn yn 2008 i drosglwyddo 800 o staff. Fodd bynnag, yn 2011, newidiodd Llywodraeth Cymru y targed i gynyddu canran y swyddi a leolir y tu allan i Gaerdydd, gan geisio codi'r ganran o 23 y cant yn 2002 i 60 y cant yn 2012.



gwellodd Llywodraeth Cymru ei dull o reoli manteision. Ond gwelsom nad yw Llywodraeth Cymru bellach yn mynd ati'n systematig i gasglu a chofnodi holl fanteision y Rhaglen, yn cynnwys rhai sy'n debygol o barhau i gael eu gwireddu yn y dyfodol.

25 **Mae Rhaglen y Strategaeth Leoli wedi sicrhau amryw o fanteision.** Yn ogystal â sicrhau amryw o fanteision i staff, y cyhoedd a'r amgylchedd, yn 2011 amcangyfrifodd Prifysgol Bangor fod effaith economaidd net y Rhaglen dros £150 miliwn dros y cyfnod rhwng dechrau adeiladu a 2015. Er hynny, nid oedd yr amcangyfrif yn ystyried yr effaith economaidd negyddol ar leoliadau y trosglwyddodd staff ohonynt neu lle'r oedd swyddfeydd Llywodraeth Cymru wedi cau oherwydd y Rhaglen.

26 Er nad oedd yn un o nodau gwreiddiol y Strategaeth Leoli, mae'r Rhaglen wedi cyfrannu at broses ad-drefnu ystâd Llywodraeth Cymru, gyda rhai swyddfeydd yn cau wrth i staff adleoli i'r tri adeilad newydd. Yn ystod y Rhaglen, mae Llywodraeth Cymru wedi torri 60 y cant oddi ar faint ei hystâd, i 41 adeilad. Trwy raglen Strategaeth Leoli 2, nod Llywodraeth Cymru yw lleihau maint yr ystâd ymhellach, i 13 adeilad swyddfa craidd[6] yn unig erbyn mis Ebrill 2015.

27 Manteisiodd Llywodraeth Cymru ar y cyfle sy'n codi o anghenion rheoli cyfleusterau ei adeiladau swyddfa newydd i ad-drefnu'r 109 contract rheoli cyfleusterau a arferai fodoli drwy Gymru. Cafodd y gwaith o reoli cyfleusterau'r ystad gyfan ei ad-drefnu'n saith contract, gan gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd amcangyfrifedig o £1 miliwn dros dair blynedd.

28 Mae pob swyddfa newydd wedi ennill gradd 'ragorol' BREEAM am eu perfformiad amgylcheddol, gan greu potensial i arbed ar gostau ynni. Mae perfformiad amgylcheddol y swyddfeydd newydd, o'u hystyried yng nghyd-destun ad-drefnu'r ystad, yn golygu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni yn erbyn ei hamcanion cynaliadwyedd ar gyfer y Rhaglen. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi gwella opsiynau teithio gwyrdd o Gaerdydd i Ferthyr Tudful ac wedi rhoi cynlluniau teithio gwyrdd ar waith yn ei swyddfeydd yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno, ond nid yw wedi gwerthuso effaith y cynlluniau hyn.

29 Mae swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno wedi darparu ardaloedd mynediad cyhoeddus o'r enw 'Y Bont' i hyrwyddo ymgysylltiad â'r gymuned a gwybodaeth hygyrch i'r cyhoedd. Erbyn mis Mai 2011, roedd 115,367 o bobl wedi ymweld â chyfleusterau'r Bont yn swyddfa Aberystwyth a 43,728 wedi ymweld â chyfleuster tebyg yn swyddfa Cyffordd Llandudno. Nid oes cyfleusterau tebyg ar gael yn swyddfa Merthyr Tudful.

30 Un o nodau'r Rhaglen oedd gwella amgylchedd gwaith i staff. Arolygodd Llywodraeth Cymru y staff a oedd wedi adleoli a gwelodd eu bod at ei gilydd yn fodlon ag amgylchedd gwaith modern a hyblyg y swyddfeydd newydd.

6 Swyddfeydd lle ceir ymrwymiad hirdymor.

## Argymhellion

**31** Cyflawnodd Llywodraeth Cymru Raglen y Strategaeth Leoli dros gyfnod o naw mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae trefniadau rheoli rhaglen a phrosiectau Llywodraeth Cymru wedi gwella'n gynyddol, er enghraifft drwy gymhwyso'r Model Busnes Pum Achos a ddatblygwyd gan y Trysorlys ac sydd wedi'i gynnwys yn y Llyfr Gwyrdd.

**32** I ysgogi peth o'r gwelliant hwn, dros y blynyddoedd diwethaf cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru nifer o adroddiadau ar brosiectau cyfalaf mawr.[7] Roedd yr adroddiadau hyn, ac adroddiadau cysylltiedig Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, yn cynnwys argymhellion a fyddai wedi bod yn berthnasol i'r Strategaeth Leoli hefyd. Cynhwysent argymhellion ar amcangyfrif costau prosiect (yn cynnwys caniatáu lle i duedd optimistiaeth), cynhyrchu manylebau manwl, dysgu a lledaenu gwersi, defnyddio adolygiadau gateway, a sefydlu timau prosiect â'r gymysgedd iawn o sgiliau a phersonoliaethau. Yn ogystal ag argymhellion adroddiadau blaenorol sy'n gymwys hefyd i Raglen y Strategaeth Leoli, rydym wedi clustnodi rhai meysydd ar gyfer gwelliant pellach.

### Opsiynau ac arfarniadau ariannol

**33** Roedd arweiniad Llyfr Gwyrdd y Trysorlys ar arfarnu a gwerthuso rhaglenni a phrosiectau ar gael o gamau cynnar Rhaglen y Strategaeth Leoli. Ond wrth ddatblygu'r Rhaglen i gyflawni amcanion y Strategaeth, ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru arfarniad llawn o ddewisiadau amgen yn hytrach nag adeiladu tair swyddfa newydd.

**A1** **Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r modd y mae'n mynd ati i glustnodi ac arfarnu opsiynau i lywio penderfyniadau allweddol ynglŷn â sut y dylid cyflawni ei amcanion strategol. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru:**

- **a** **arfarnu opsiynau a dadansoddi cost a budd yn unol ag arweiniad y Llyfr Gwyrdd ar gyfer rhaglenni a phrosiectau mawr; ac**
- **b** **ailedrych ar arfarniadau o opsiynau ac arfarniadau ariannol ar gamau allweddol, er enghraifft wrth wneud newidiadau mawr i raglen neu brosiect, i sicrhau mai'r opsiwn a ddewiswyd sy'n parhau i gynnig y gwerth gorau am arian.**

---

7 *Y Senedd* (2008); *Arian ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru* (Hydref 2008); *Prosiectau Trafnidiaeth Mawr* (Ionawr 2011); *a Darparu gwasanaethau TGCh a phrosiectau TGCh o dan gontract Merlin* (Awst 2011).



## Llywodraethu a rheoli rhaglenni a phrosiectau

34 Hyd nes y gwnaed newidiadau mawr i drefn lywodraethu'r Rhaglen yn 2008, ni aeth Bwrdd y Rhaglen ati i sicrhau proses ddigonol o drosolwg a chraffu strategol ar y Rhaglen. Yn benodol, ni chafodd Bwrdd y Rhaglen y wybodaeth ariannol oedd ei angen arno i arfer rheolaeth ariannol effeithiol.

**A2 Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod:**

- **a** **prosiectau a rhaglenni mawr yn ddarostyngedig i brosesau trosolwg a chraffu strategol effeithiol, a bod trefn lywodraethu a rheolaethau ariannol ar waith; a bod**
- **b** **cylch gwaith byrddau rhaglenni a phrosiectau mawr yn cynnwys monitro ac adolygu costau amcangyfrifedig yn aml ac yn rheolaidd yn erbyn y cyllidebau er mwyn gallu ymyrryd yn amserol.**

35 Er bod gwendidau yng nghamau cynnar y Rhaglen, gwellodd y gwaith o reoli'r rhaglen wedyn wrth i Lywodraeth Cymru gryfhau trefn lywodraethu'r Rhaglen, gan arwain at ddull mwy cydgysylltiedig o ddarparu'r rhaglen drwy dimau prosiect o staff â'r sgiliau iawn.

**A3 Wrth bennu sut i reoli rhaglenni a phrosiectau mwy o faint, dylai Llywodraeth Cymru ddilyn yr esiampl a osodwyd yng nghamau diweddaraf Rhaglen y Strategaeth Leoli drwy sicrhau'r gymysgedd gywir o sgiliau o fewn timau rhaglenni a phrosiectau.**

## Gwireddu manteision

36 Hyd nes 2008, roedd dull Llywodraeth Cymru o reoli manteision yn annigonol. Ceid diffyg eglurder ynglŷn â'r manteision a ragwelid, ac ni aethpwyd ati i gasglu a chytuno ar ddata llinell sylfaen i fesur cyflawniad yn eu herbyn. Er bod rhai manteision yn anodd eu mesur, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi gwella agweddau ar ei brosesau rheoli manteision ar ôl 2008 hyd yn oed.

**A4 Ar ddechrau rhaglen neu brosiect, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y manteision a ragwelir wedi'u sefydlu'n eglur, yn realistig ac yn gyraeddadwy. Yn ogystal, dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth wireddu manteision i gefnogi'r gwaith o sicrhau manteision. Dylai'r strategaeth gynnwys:**

- **a** **nodi manteision wedi'u diffinio'n eglur ar y dechrau sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol;**
- **b** **cynnal dealltwriaeth eglur a chyson o'r manteision disgwyliedig drwy gydol y rhaglen neu'r prosiect;**
- **c** **rheoli'r broses o sicrhau'r manteision hyn, a mesur cynnydd yn erbyn data llinell sylfaen cadarn lle bo'n bosibl, gan lywio prosiectau a rhaglenni i wireddu'r manteision a nodwyd, a manteisio ar gyfleoedd i wella manteision;**
- **ch** **sicrhau bod meysydd busnes wedi ymrwymo i wireddu'r manteision a ddyrannwyd iddynt;**
- **d** **ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn iddynt berchnogi a chefnogi'r broses o sicrhau manteision;**

dd **dadansoddi'r manteision a sicrhawyd yn gadarn ac ar sail tystiolaeth, yn cynnwys effaith ehangach y rhaglen neu'r prosiect; a**

e **pharhau i fonitro a dadansoddi'r manteision am gyfnod digon hir ar ôl i'r rhaglen neu'r prosiect orffen, i allu cydnabod effaith lawn y manteision.**

## Ardaloedd mynediad cyhoeddus

37 Mae nifer yr ymweliadau gan aelodau'r cyhoedd i swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno yn awgrymu bod cyfleusterau'r Bont wedi cael peth llwyddiant yn gwneud Llywodraeth Cymru yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Nid oes ardal fynediad cyhoeddus debyg yn swyddfa Merthyr Tudful.

A5 **Dylai Llywodraeth Cymru werthuso i ba raddau y mae cyfleusterau'r Bont yn swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno wedi llwyddo i gynyddu ymgysylltiad y cyhoedd â Llywodraeth Cymru a'i hymwybyddiaeth ohoni. Os yw'r gwerthusiad yn gadarnhaol, ac os yw'n ymarferol ac yn gost-effeithiol iddi wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cyfleusterau'r Bont yn swyddfa Merthyr Tudful.**



# Rhan 1 – Roedd amcanion clir i'r Strategaeth Leoli, ond ni sefydlodd Llywodraeth Cymru drefniadau llywodraethu effeithiol nes 2008 a rhoddodd amcangyfrif rhy isel o gost y Rhaglen

## Amcan eglur Llywodraeth Cymru oedd cynyddu cyfran y staff a weithiai y tu allan i Gaerdydd, ond llesteiriwyd y gwaith o gynllunio'r gweithlu gan gyfyngiadau ar wybodaeth am niferoedd staff, y sylw cyfyngedig i opsiynau o ran adeiladau, ac amcangyfrif rhy isel o gostau'r Rhaglen

**Yn 2002, gwnaeth Llywodraeth Cymru benderfyniad polisi i gynyddu cyfran y staff sy'n gweithio y tu allan i Gaerdydd, ond nid oedd yr opsiwn a ddewiswyd i ddatblygu tair swyddfa newydd ac adleoli 400 o swyddi o Gaerdydd wedi'i gefnogi gan gynlluniau cadarn ar gyfer y gweithlu**

1.1 Ym mis Hydref 2001, cytunodd Cabinet Llywodraeth Cymru ar gyfres o egwyddorion i fod yn sail i adolygiad o leoliad ei adeiladau swyddfa yng Nghymru. Amcan polisi cyffredinol yr adolygiad oedd lleihau cyfran y staff Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd a chynyddu cyfran y staff mewn rhannau eraill o Gymru. Dyma'r egwyddorion:

- **a** darparu gwasanaethau yn nes at gwsmeriaid;
- **b** gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithredol;
- **c** darparu cyngor polisi i Weinidogion;
- **ch** bodloni dymuniadau staff;
- **d** sicrhau effeithiau economaidd lleol;
- **dd** cyflawni gwerth am arian; a
- **e** hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

1.2 Rhwng mis Hydref 2001 a mis Ebrill 2002[8], gwerthusodd Llywodraeth Cymru ei hystâd a'i hangen am adeiladau yn y dyfodol ac ym mis Awst 2002, cynhyrchodd adroddiad y *Strategaeth Adleoli*. Diben yr adroddiad oedd darparu argymhellion i'r Cabinet ynglŷn ag adleoli swyddi o Gaerdydd. Argymhellai'r adroddiad strategaeth a rhaglen ar gyfer adleoli y tu allan i Gaerdydd o leiaf 400 o swyddi Llywodraeth Cymru a fodolai'n barod yng Nghaerdydd dros ystod o raddfeydd erbyn 2007, gyda'r posibilrwydd o ddatganoli ymhellach ar ôl 2007.

1.3 Ym mis Awst 2002, cytunodd y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau y dylai Llywodraeth Cymru weithredu argymhellion adroddiad y *Strategaeth Adleoli*, a chefnogodd Cabinet Llywodraeth Cymru y Strategaeth ym mis Hydref 2002. Yn dilyn hynny, daeth adroddiad y Strategaeth Adleoli yn *Strategaeth Adleoli* Llywodraeth Cymru, a'i hailenwi wedyn yn Strategaeth Leoli. Darparodd Llywodraeth Cymru y Strategaeth Leoli drwy Raglen y Strategaeth Leoli ('y Rhaglen').

8 *Strategaeth Adleoli 2002 – 2007,* Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002


**1.4** Adeg llunio adroddiad y *Strategaeth Adleoli*, roedd adleoli 400 swydd yn cynrychioli mwy na 15 y cant o'r swyddi yng Nghaerdydd. Wedi hynny, cynyddodd nifer targed y swyddi i'w hadleoli o Gaerdydd i 700 yn achosion busnes Strategol ac Amlinellol 2004, ac yna i 800 yn yr Achos Busnes Llawn yn 2008.

**1.5** Os oedd nifer y swyddi yng Nghaerdydd yn aros yn debyg, honnai adroddiad y Strategaeth Adleoli y byddai bron i hanner (43 y cant) o holl swyddi Llywodraeth Cymru wedi'u lleoli y tu allan i Gaerdydd erbyn 2007, o gymharu â 23 y cant yn 2002. Rhagwelai'r Rhaglen y byddai nifer y swyddi y tu allan i Gaerdydd yn 1,700 i gyd erbyn 2007, yn cynnwys 800 o swyddi a fodolai'n barod, 400 o swyddi wedi'u hadleoli o Gaerdydd a 500 amcangyfrifedig o swyddi newydd wedi'u creu gan y twf a ragwelid yng ngwaith Llywodraeth Cymru (Ffigur 1).

**1.6** Roedd y penderfyniad i adleoli swyddi o Gaerdydd yn gyson â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd ar ôl datganoli i ddatganoli gwasanaethau o Gaerdydd a'u dwyn yn nes at bobl Cymru. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o gynlluniau creiddiol manwl ar gyfer y gweithlu i bennu natur, graddau a lleoliad yr angen am adeiladau yn y dyfodol, nifer y swyddi i'w hadleoli y tu allan i Gaerdydd, na'r nifer tebygol o swyddi newydd. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad oedd hi'n bosibl cynllunio'r gweithlu'n gadarn adeg llunio adroddiad y Strategaeth Adleoli gan mai gwybodaeth gyfyngedig yn unig oedd ar gael ynglŷn â niferoedd staff.

**1.7** Gwnaeth adroddiad y Strategaeth Adleoli 23 o argymhellion ar gyfer creu sefydliad mwy gwasgaredig yn ddaearyddol (Atodiad 3). Yn ogystal ag argymell y nifer o swyddi i'w symud allan o Gaerdydd, gwnaeth yr adroddiad

**Ffigur 1 – Rhagamcan o nifer cronnus y staff a leolir y tu allan i Gaerdydd**




*Ffynhonnell: Strategaeth Adleoli Llywodraeth Cymru, 2002*



nifer o argymhellion eraill a fyddai'n rhoi ffurf i'r Rhaglen wrth iddi ddatblygu dros y blynyddoedd wedyn, yn cynnwys:

- **a** Dylai'r Cynulliad gaffael tair swyddfa newydd yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru, pob un â lle i o leiaf 300 o aelodau o staff, mewn ardaloedd o anfantais economaidd gymharol (megis ardaloedd Amcan 1).
- **b** Dylid seilio gweithrediad y strategaeth ar ystyriaethau'n ymwneud ag adeiladau[9].
- **c** Dylid symud gwaith i leoliadau sy'n adlewyrchu natur y gwaith neu'n cynnwys y brif sylfaen gwsmeriaid. Er enghraifft, dylid lleoli staff sy'n gweithio ar bolisi gwledig mewn ardal â chymuned wledig ac amaethyddol fawr.
- **ch** Dylai adeiladau anelu i gyrraedd y safon BREEAM briodol[10].
- **d** Oni fo rhesymau gweithredol cryf dros wneud fel arall, dylid lleoli'r holl swyddogaethau sy'n newydd i'r Cynulliad y tu allan i Gaerdydd.
- **dd** Dylai swyddfeydd gynnwys derbynfeydd a dylai ffynonellau gwybodaeth Llywodraeth Cymru fod yn hygyrch i'r cyhoedd ar sail 'galw heibio'.
- **e** Dylid ad-drefnu rhywfaint ar ofod swyddfa yng Nghaerdydd, gan ganolbwyntio gweithgaredd Llywodraeth Cymru bron i gyd yn swyddfeydd Parc Cathays yn y tymor hwy (ar ôl 2007).

**1.8** Erbyn mis Hydref 2002, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfle i leoli swyddfa De Cymru ym Mharc Busnes Rhyd-y-car ym Merthyr Tudful. Digwyddodd hyn yn dilyn asesiad masnachol o safleoedd posibl, gyda Gweinidogion yn dewis Merthyr Tudful am y gallai'r safle gynorthwyo'r broses o adfywio ardal Amcan Un Cymoedd De Cymru yn gymdeithasol ac yn economaidd. Hefyd, roedd safle Merthyr Tudful yn ddigon mawr i leoli adeilad ar gyfer 300 o staff, gyda lle i ehangu yn y dyfodol.

**1.9** Rhwng mis Hydref 2003 a mis Chwefror 2004, nododd Llywodraeth Cymru dri safle posibl yn ardal Ceredigion ar gyfer swyddfa Canolbarth Cymru ac wyth safle posibl ar gyfer swyddfa Gogledd Cymru. Gwerthusodd swyddogion bob safle yn erbyn chwe maen prawf allweddol:

- **a** hygyrchedd y safle i staff newydd a staff presennol;
- **b** ystyriaethau amgylcheddol;
- **c** cysylltiadau trafnidiaeth;
- **ch** potensial o ran datblygu economaidd;
- **d** ansawdd y safle (er enghraifft, o ran cyflwr y ddaear, materion peirianyddol a defnydd cyfredol); a
- **dd** gwerth am arian.

**1.10** Ym mis Chwefror 2004, dechreuodd Llywodraeth Cymru drafodaethau i gaffael y safle ar gyfer swyddfa Canolbarth Cymru ym Mharc y Llyn, Aberystwyth, a daeth y rhain i ben ym mis Mawrth 2004. Roedd dau safle ar restr fer Llywodraeth Cymru ar gyfer swyddfa Gogledd Cymru: safle yng Nghonwy ar gyfer datblygu mewn partneriaeth â Chyngor Sir Conwy, a safle yng Nghyffordd Llandudno. Fodd bynnag, penderfynodd y Cyngor yn erbyn ailddatblygu ei swyddfeydd yng Nghonwy, gan olygu nad oedd y safle hwnnw ar gael, a dewisodd Llywodraeth Cymru y safle yng Nghyffordd Llandudno ar gyfer y swyddfa newydd.

9 Mae strategaeth sy'n seiliedig ar ystyriaethau'n ymwneud ag adeiladau yn canolbwyntio'n bennaf ar gaffael eiddo gyda'r swyddogaethau, y bobl ac agweddau ar newid busnes yn dilyn wedyn. Ar gyfer y Strategaeth Leoli, roedd y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn awyddus i ddefnyddio dull yn seiliedig ar adeiladau er mwyn gweithredu'r Rhaglen cyn gynted â phosibl (Adolygiad o Sicrwydd Prosiect Merthyr Tudful, Medi 2003).

10 System o asesu a graddio adeiladau o safbwynt amgylcheddol yw BREEAM.

**Ni aeth Llywodraeth Cymru ati i lunio gwerthusiad llawn o'r opsiynau amgen yn hytrach na sefydlu tair swyddfa ranbarthol fawr newydd, felly mae'n aneglur a fyddai opsiynau amgen wedi cynnig mwy o werth am arian**

**1.11** Mae Llyfr Gwyrdd y Trysorlys yn rhoi canllawiau arfer da ynglŷn â sut i arfarnu cost a budd argymhellion buddsoddi. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn awgrymu y dylid nodi opsiynau tebygol ar gyfer cyflawni amcan polisi, yna cynnal asesiad systematig ac arfarniad ariannol o bob opsiwn. Dylai'r asesiad gynnwys nodi cost pob opsiwn, a lle bo'n rhesymol, mesur y manteision mewn termau ariannol. Dylai'r opsiynau sydd i'w harfarnu gynnwys opsiwn 'gwneud dim' i brofi effaith peidio â bwrw ymlaen i fuddsoddi. Ar ôl derbyn opsiwn a ffafrir, dylai'r arfarniad ariannol fanylu ar gost a budd y cynnig wrth i'r prosiect symud yn ei flaen ac wrth i fwy o fanylion ddod ar gael.

**1.12** Argymhellai adroddiad y Strategaeth Adleoli y dylid caffael tair swyddfa ranbarthol newydd. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad yn cynnig opsiynau ar gyfer adleoli swyddi o Gaerdydd. Gwelsom hefyd nad aeth Llywodraeth Cymru ati mewn ymateb i argymhellion adroddiad y *Strategaeth Adleoli* i nodi a gwerthuso'n llawn unrhyw opsiynau amgen yn lle'r argymhelliad hwn. Ym mis Mai 2004, datblygodd Llywodraeth Cymru Achos Busnes Strategol a nodai rai opsiynau gwahanol ar gyfer cyflawni ei amcanion polisi. Ond erbyn hynny, roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi bwrw ymlaen â'i thrafodaethau ar ddatblygu adeiladu swyddfa newydd ym Merthyr Tudful, Aberystwyth a Llandudno. Dyma'r opsiynau a nodwyd yn Achos Busnes Strategol mis Mai 2004:

**a** gwneud dim;

**b** datblygu sawl swyddfa lai o faint ledled Cymru;

**c** ehangu swyddfeydd sy'n bodoli'n barod ledled Cymru;

**ch** gwneud mwy o ddefnydd o gyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chyfleusterau fideo-gynadledda bwrdd gwaith;

**d** defnyddio adeiladau cyhoeddus ar sail 'galw heibio';

**dd** archwilio'r posibilrwydd o rannu adeiladau cyhoeddus presennol megis eiddo awdurdodau lleol neu'r gwasanaeth iechyd; a

**e** sefydlu nifer o swyddfeydd sy'n ddigon mawr a'n meddu ar ddigon o bresenoldeb ffisegol i allu cael effaith weladwy a hunaniaeth unigryw.

**1.13** Gwrthododd yr Achos Busnes Strategol yr opsiwn i wneud dim oherwydd risgiau corfforaethol, ariannol, diwylliannol, gwleidyddol a chyfreithiol, a risg i enw da ac o ran arweiniad, ond ni nododd beth oedd y risgiau hyn yn benodol a sut y cawsant eu gwerthuso. Gwrthodwyd opsiynau eraill am amryw o resymau, yn cynnwys prinder manteision economaidd; diffyg cyfleoedd gyrfaol; dim digon o adleoli staff; colli hunaniaeth Llywodraeth Cymru; ac effaith weledol annigonol y Rhaglen.



1.14 Roedd yr arfarniad o'r opsiynau a nodwyd yn yr Achos Busnes Strategol yn frysiog a heb ei gefnogi gan ddadansoddiad ariannol o gost a budd perthnasol. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi penderfynu comisiynu'r gwaith o adeiladu tair swyddfa newydd. Roedd yr arfarniad o'r opsiynau yn ôl-weithredol yn hytrach na'i fod yn llywio'r penderfyniad i fuddsoddi, fel y dylai fod wedi gwneud.

1.15 Adolygodd Llywodraeth Cymru yr achos busnes dros y Strategaeth Leoli sawl gwaith rhwng 2004 a 2009, gan wneud rhai newidiadau i'r argymhellion. Un enghraifft o newid o'r fath oedd cynyddu maint swyddfa Cyffordd Llandudno i wneud lle i staff ychwanegol o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC) pan drosglwyddwyd y rhain i Lywodraeth Cymru yn 2006. Fodd bynnag, ni aeth Llywodraeth Cymru ati ar unrhyw bwynt dros 10 mlynedd nesaf y Rhaglen i gynnal ail arfarniad o'i phenderfyniad i adleoli gwaith y tu allan i Gaerdydd yn y tair swyddfa newydd.

1.16 Roedd uno CNLC â Llywodraeth Cymru yn 2006 yn newid mawr a arweiniodd at gynyddu eiddo a staff Llywodraeth Cymru yn sylweddol. Roedd yr uno'n gyfle a gollwyd i Lywodraeth Cymru ailasesu pa un a oedd y dull gwreiddiol o fynd ati yn dal yn briodol neu a fyddai opsiynau eraill, megis defnyddio swyddfeydd a fodolai'n barod yn ei hystâd estynedig, wedi cynnig mwy o werth am arian. Hefyd, collodd Llywodraeth Cymru gyfle i ail-arfarnu ei hopsiynau yn ystod oedi ac adolygu prosiect swyddfa Cyffordd Llandudno ym mis Medi 2007, a phan gafodd y Rhaglen adolygiad Gateway beirniadol ym mis Gorffennaf 2008.

## Roedd yr arfarniadau ariannol yn gadarn at ei gilydd ond roedd amcangyfrif Llywodraeth Cymru o gost cyflawni'r Rhaglen yn rhy isel

1.17 Roedd yr arfarniad ariannol a nodwyd yn Achos Busnes Strategol 2004 yn gosod gwerth cost net bresennol[11] yr opsiwn a ffafrid ar gyfer y Strategaeth Leoli ar £25.2 miliwn. Roedd y ffigwr yn cynnwys cost net o £137.4 miliwn yn erbyn budd o £112.2 miliwn dros gyfnod o 20 mlynedd (Ffigur 2). Roedd yr arfarniad yn dilyn canllawiau'r Llyfr Gwyrdd, ac yn cynnwys yr holl brif gostau rhagweladwy ac amcangyfrif rhesymol o'r manteision a oedd yn debygol o ddeillio o'r rhaglen. Dros amser, addasodd Llywodraeth Cymru yr arfarniadau ariannol wrth i'r costau a'r manteision ddod yn fwy eglur. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru yr arfarniadau hyn i ddewis rhwng opsiynau ariannu ar gyfer pob safle, yn cynnwys opsiynau i brynu'n gyfan gwbl neu i lesio pob swyddfa.

1.18 Roedd yr Achos Busnes Strategol yn cynnwys rhai dadansoddiadau o sensitifrwydd,[12] ond dim ond o'r effaith ar gost a budd newidiadau ym maint yr adeiladau i wneud lle i nifer fwy o staff. Roedd fersiynau diweddarach o'r achos busnes hefyd yn modelu effaith derbyniadau llai na'r disgwyl o ad-drefnu ystâd Llywodraeth Cymru.

11 Cost net bresennol yw canlyniad arfarniad ariannol o'r holl gostau perthnasol dros oes prosiect (o leiaf 20 mlynedd ar gyfer adeiladau) gan dynnu unrhyw arbedion a manteision ariannol mesuradwy eraill a ddisgwylir dros yr un cyfnod, y cyfan ar brisiau cyfredol.

12 Mae dadansoddiad o sensitifrwydd yn elfen allweddol o arfarniadau buddsoddi cadarn ac fe'i defnyddir i brofi pa mor agored yw opsiynau i ansicrwydd yn y dyfodol na ellir ei osgoi. Mae'r cyfrif yn dangos faint fyddai'n rhaid i ffactor newidiol ostwng (os yw'n fudd) neu godi (os yw'n gost) i wneud opsiwn yn un nad yw'n werth parhau ag ef.

**Ffigur 2 – Cost a budd rhaglen y Strategaeth Leoli ym mis Mai 2004**

Gwerth/cost net bresennol y Strategaeth Leoli dros 20 mlynedd o ddechrau'r rhaglen, yn seiliedig ar yr Achos Busnes Strategol a gymeradwywyd ym mis Mai 2004

| Eitem | Budd / (cost) (£m) | |
|---|---|---|
| | Cost Uned | Cyfanswm Cost |
| **Cost** | | |
| Cost sefydlu net<br>Costau rheolaidd net<br>Cyfanswm costau | 26.1)<br>(111.3) | <br><br>(137.4) |
| **Budd** | | |
| Mwy o gyfoeth lleol drwy adleoli swyddi Llywodraeth Cymru (incwm gwario unigolion)<br>Hap-ddatblygu ychwanegol o amgylch y safle a ddewiswyd ym Merthyr Tudful<br>*Cyfanswm budd adfywio Economaidd* | 60.3<br>12.6 | <br><br>72.9 |
| Diddymu'r angen am adeiladau pellach yng Nghaerdydd<br>Ad-drefnu safleoedd dros ben, diangen ac anaddas ar draws ystâd Llywodraeth Cymru<br>Gostyngiad o 5% ar gostau rhedeg adeiladau newydd<br>*Cyfanswm buddion eraill*<br>*Gwerth asedau gweddilliol swyddfeydd newydd* | 10.3<br>8.0<br>0.8 | <br><br><br>19.1<br>20.2 |
| **Gwerth net presennol / (cost net bresennol)** | | (£25.2m) |

*Ffynhonnell: Achos Busnes Strategol Rhaglen y Strategaeth Leoli, Llywodraeth Cymru, Mai 2004*

**1.19** Roedd yr arfarniadau ariannol yn cynnwys darpariaeth wrth gefn gyffredinol o 15 y cant i gynnwys cynnydd yn y costau cyfalaf a chostau rhedeg yn ystod pum mlynedd gyntaf y cyfnod arfarnu. Fodd bynnag, mae'r Llyfr Gwyrdd yn awgrymu bod costau sy'n gor-redeg yn aml yn llawer uwch na hyn ar gyfer prosiectau cyfalaf ac mae'n argymell y dylid cynnwys darpariaeth wrth gefn ychwanegol mewn amcangyfrifon i ganiatáu ar gyfer yr hyn a elwir yn 'duedd optimistiaeth' (Blwch 1).

**1.20** Roedd gofynion diogelwch ychwanegol ac awydd am ragoriaeth o ran y dyluniad a pherfformiad amgylcheddol yn dod ag elfennau arbenigol i mewn i'r prosiectau adeiladu, gan gynyddu'r risg o gostau'n codi. Ar sail canllawiau'r Llyfr Gwyrdd, ystyriwn y dylai'r arfarniad ariannol fod wedi rhoi mwy o ystyriaeth i duedd optimistiaeth.

**Blwch 1 – Tuedd optimistiaeth**

Ceir tuedd y cyfeiriwyd ati droeon i roi amcangyfrif rhy isel o gostau a gorddatgan manteision prosiectau, ac mae'r Llyfr Gwyrdd yn argymell addasiadau penodol i gydnabod yr effaith hon. Gelwir amcangyfrif rhy isel o'r fath yn 'duedd optimistiaeth', ac fe'i seiliwyd ar brofiad ac ymchwil ar y math o brosiect sydd dan ystyriaeth. Mae'n fwy tebygol y rhoddir amcangyfrif rhy isel o'r costau adeiladu na'r costau rhedeg, ac mae risg uwch o gynnydd yn y costau ar adeiladau arbenigol nag ar waith adeiladu arferol. Cofnododd Mott McDonald (*Review of Large Public Procurement in the UK*, Trysorlys ei Mawrhydi, 2002) fod tuedd optimistiaeth yn 24 y cant mewn sampl o brosiectau adeiladu arferol mawr, ac yn 51 y cant ar gyfer adeiladau arbenigol.

*Ffynhonnell: Llyfr Gwyrdd y Trysorlys, 2003.*



1.21 Fel y digwyddodd hi, roedd cost cyflawni pob prosiect gryn dipyn yn uwch na'r hyn a amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru yn ei harfarniad ariannol. Cynyddodd Llywodraeth Cymru ei hamcangyfrif o gyfanswm costau'r rhaglen dros 20 mlynedd o £137.4 miliwn yn yr Achos Busnes Strategol yn 2004, i £171 miliwn mewn arfarniad buddsoddi a gynhaliwyd ddwy flynedd yn ddiweddarach yn rhan o ddiweddaru Achos Busnes Amlinellol. Er bod yr addasiad yn awgrymu asesiad mwy realistig o duedd optimistiaeth, deilliai peth o'r cynnydd o newidiadau cyfalaf i swyddfa Gogledd Cymru i wneud lle i staff a drosglwyddwyd wrth i'r pedwar CNLC uno â Llywodraeth Cymru

## Ni sefydlodd Llywodraeth Cymru drefn lywodraethu effeithiol dros y Rhaglen nes 2008

### Canfu adolygiadau Gateway wendidau sylweddol yn y drefn lywodraethu yn ystod pum mlynedd gyntaf y Rhaglen

1.22 O ddechrau cam gweithredol y Rhaglen ym mis Mawrth 2003, ceisiodd Llywodraeth Cymru sefydlu arweinyddiaeth gref a strwythur cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau a rheoli rhaglen. Er bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y dylid seilio'r Strategaeth ar ystyriaethau'n ymwneud ag adeiladau, rhoddwyd statws Ambr i'r rhaglen mewn Adroddiad Gateway 0 (Blwch 2) ym mis Ebrill 2003, a nododd bryderon fod y Rhaglen yn llawer mwy pellgyrhaeddol na darparu adeiladau'n unig, a bod perygl na ellid cyflawni'r Rhaglen yn llwyddiannus. Yn benodol, tynnodd yr adolygiad sylw at risgiau'n gysylltiedig â chlustnodi swyddi i'w symud, sut y byddai symud swyddi yn effeithio ar staff a sut i ddigolledu staff a fyddai'n adleoli. Hefyd, nododd yr adolygiad risgiau o ran rheoli newid busnes a rheolaeth aneffeithiol ar gyfleoedd a risgiau am fod y Rhaglen yn araf yn symud ymlaen, ac am nad oedd yn gwneud digon o sylw o ganllawiau arfer da. Ar yr adeg honno hefyd, nid oedd amcangyfrif ar gael o gyfanswm y gost o gyflawni'r Rhaglen.

**Blwch 2 – Adolygiadau Gateway**

Adolygiadau o raglen neu brosiect caffael yw adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth, a chânt eu cynnal pan fydd angen gwneud penderfyniadau allweddol gan dîm o bobl brofiadol sy'n annibynnol ar dîm y prosiect. Adolygiad yw Gateway 0 a gynhelir drwy gydol oes rhaglen fawr ac sy'n archwilio cyfeiriad a'r canlyniadau a gytunwyd ar gyfer y rhaglen, ynghyd â datblygiad prosiectau sy'n rhan ohoni. Mae'r tîm yn cynnal adolygiadau Gateway 0 dros oes y rhaglen pan fydd angen gwneud penderfyniadau allweddol. Caiff statws y rhaglen ei mesur fel a ganlyn:

- Coch – mae'n edrych yn debygol na ellir cyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus;
- Ambr/Red – mae amheuaeth pa un a ellir cyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus gan fod risgiau neu broblemau mawr i'w gweld mewn nifer o feysydd allweddol;
- Ambr – mae'n ymddangos y gellid cyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus ond mae problemau sylweddol eisoes yn bodoli;
- Ambr/Gwyrdd – mae'n edrych yn debygol y caiff y rhaglen ei chyflawni'n llwyddiannus ond bydd angen sylw cyson; neu
- Gwyrdd – mae'n edrych yn debygol iawn y caiff y rhaglen ei chyflawni'n llwyddiannus yn ôl y gofynion amser, cost ac ansawdd.

1.23 Ym mis Gorffennaf 2003, adolygodd Gweinidogion drefn lywodraethu'r Rhaglen i sicrhau ei bod yn rhoi mwy o ystyriaeth i faterion adnoddau dynol, yn cynnwys nodi pa swyddi i'w hadleoli a sut y dylai Llywodraeth Cymru recriwtio i'r swyddi gwag a adleoliwyd. Roedd y trefniadau llywodraethu diwygiedig yn cynnwys sefydlu Bwrdd y Rhaglen, wedi'i gadeirio gan Gyfarwyddwr Rhaglen, gyda chylch gwaith yn cynnwys darparu cymorth a chraffu i hwyluso proses effeithiol o wneud penderfyniadau, a Rheolwr Rhaglen a Thîm Swyddfa Rheoli Rhaglen i gyflawni amcanion y Rhaglen. Roedd y Rhaglen ar ei newydd wedd yn cynnwys y tri phrosiect adeiladu mawr ym Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno a sawl prosiect 'cleient' cysylltiedig (Atodiad 4).

1.24 Er bod Llywodraeth Cymru wedi cryfhau ei threfniadau llywodraethu ar gyfer y Rhaglen yn 2003, gwelodd Adolygiadau Gateway 0 dilynol ym mis Gorffennaf 2005 a mis Gorffennaf 2006 ddiffygion yn y drefn lywodraethu hefyd, a dyfarnwyd statws Coch i'r rhaglen gan y cyntaf o'r rhain, a statws Ambr gan yr ail. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i argymhellion y ddau adolygiad, ond nid oedd newidiadau i'r Rhaglen bob amser yn amlwg ac roedd eu heffeithiolrwydd yn ansicr. Er enghraifft, argymhellodd adolygiad 2006 y dylid datblygu cynlluniau wrth gefn i reoli goblygiadau cost a pharhad busnes yn deillio o oedi wrth recriwtio i swyddi gwag a adleoliwyd i'r swyddfeydd newydd, ac oedi yn y broses o adleoli staff lle byddai swydd wedi symud i un o'r swyddfeydd newydd a deiliad y swydd heb symud. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth a awgrymai fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu a gweithredu'r cynlluniau wrth gefn hyn er bod yr ymateb i'r argymhellion wedi dweud y byddai'n gwneud hynny.

### Yn dilyn adolygiad Gateway beirniadol iawn yn 2008, gwnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau sylweddol a gryfhaodd drefn lywodraethu'r Rhaglen

1.25 Ym mis Gorffennaf 2008, comisiynodd Llywodraeth Cymru bedwerydd Adolygiad Gateway 0 a nododd yr angen i gryfhau trefn lywodraethu'r Rhaglen ymhellach. Rhoddodd yr adolygiad statws 'Coch' i'r Rhaglen, a rhybuddiodd fod angen rhoi camau ar waith yn ddiymdroi i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd.


1.26 Y prif wendid a nodwyd gan yr adolygiad oedd methiant Bwrdd y Rhaglen i ddarparu cyfeiriad neu her strategol effeithiol, a'r ffaith nad oedd yn gweithredu ar ei orau fel corff gwneud penderfyniadau. Yn benodol, roedd Bwrdd y Rhaglen yn cael gwybodaeth o ansawdd gwael, yn cynnwys gwybodaeth am gostau prosiectau adeiladu Aberystwyth a Chyffordd Llandudno ac am y Rhaglen yn gyffredinol. Roedd rolau a chyfrifoldebau o fewn y prosiectau yn aneglur hefyd ac roedd y berthynas waith rhwng y Swyddfa Reoli Rhaglen a thimau'r prosiectau adeiladu yn gwaethygu, gan arwain at drefniadau rheoli risg gwael o fewn y Rhaglen. Yn ogystal, nid oedd gan y Prif Berchennog Cyfrifol gyfrifoldeb amser llawn dros y Rhaglen, gan arwain at oedi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni'r rhaglen.

1.27 Ymatebodd Llywodraeth Cymru i Adolygiad Gateway 2008 yn ystod hydref 2008 drwy ddod â Chyfarwyddwr Rhaglen newydd amser llawn a Rheolwr Rhaglen newydd i mewn. Roedd Cyfarwyddwr y Rhaglen yn atebol i'r Prif Berchennog Cyfrifol, ac roedd ganddo brofiad helaeth o gyflawni prosiectau adeiladu, gan mai ef oedd yn gyfrifol cyn hynny am reoli'r gwaith o adeiladu adeilad y Senedd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.28 Argymhellodd Rheolwr y Rhaglen y dylid ad-drefnu Bwrdd y Rhaglen i wella'r broses o wneud penderfyniadau a phenodi dau aelod anweithredol i ddarparu her allanol. Hefyd, goruchwyliodd Rheolwr y Rhaglen newidiadau i drefniadau llywodraethu'r Rhaglen i bob prosiect gael ei fwrdd prosiect ei hun, ac ad-drefnodd dîm y rhaglen yn bedwar maes, sef sicrhau safonau a risg; newid busnes a manteision; arian a chaffael; a chyfathrebu. Hefyd, daeth yr ad-drefnu ag elfennau adeiladu ac adnoddau dynol y Rhaglen at ei gilydd o dan yr un drefn reoli (Ffigur 3). Dynododd ein cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru a chontractwyr y sector preifat a oedd yn rhan o'r Rhaglen fod y newidiadau i'r drefn lywodraethu wedi arwain at ddull mwy integredig a chytbwys o reoli a chyflawni'r rhaglen.



**Ffigur 3 – Strwythur llywodraethu rhaglen y Strategaeth Leoli ar ôl Adolygiad Gateway 2008**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

**1.29** Ym mis Mehefin 2009, comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Gateway 0 pellach a ganfu fod y newidiadau i'r drefn lywodraethu a wnaed ers yr adolygiad blaenorol yn effeithiol, a rhoddodd statws Ambr/Gwyrdd i'r Rhaglen. Hefyd, gwelodd yr adolygiad fod y gwelliannau i drefn reoli'r Rhaglen wedi cyfrannu at sicrhau bod gweddill y prosiectau ar y llwybr iawn i gael eu cyflawni o fewn yr amserlenni cyfredol.

**1.30** Er bod strwythur llywodraethu'r Rhaglen yn parhau'n gymhleth, ystyriai rheolwyr prosiect y Strategaeth Leoli a swyddogion eraill Llywodraeth Cymru a oedd yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r strategaeth fod y trefniadau yn gweithio'n dda ar y cyfan, a bod newidiadau'n cael eu gwneud pan oedd angen. Yn gyffredinol, roedd y Rhaglen yn dilyn canllawiau arfer da wrth roi'r adolygiadau Gateway priodol ar waith er mwyn darparu adolygiad annibynnol, allanol o'r achos busnes a'r penderfyniad i fuddsoddi. Hefyd, yr Adolygiad Gateway 5 ar wireddu manteision a gyflawnwyd ym mis Gorffennaf 2011, ac a roddodd radd Ambr/Gwyrdd i'r rhaglen, oedd yr adolygiad cyntaf o'i fath a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw brosiect neu raglen.

**1.31** Mae'r newidiadau arwyddocaol a wnaed i'r Rhaglen yn dilyn Adolygiad Gateway 0 yn 2008 a'r newid cyfeiriad llwyr o'r hyn a ddisgrifiwyd yn adolygiad 2009 fel 'sefyllfa sy'n methu', yn dystiolaeth o ddefnyddioldeb adolygiadau Gateway a gwerth ymateb yn gadarn iddynt. Mae canfyddiadau ac effaith yr adolygiadau Gateway yn tynnu sylw at yr angen am her ac adolygiad allanol annibynnol rheolaidd yn ystod y broses o gyflawni prosiectau a rhaglenni mawr.

## Gwelwyd gwelliant sylweddol yn y gwaith o reoli'r rhaglen a'r prosiect o 2008 ymlaen

### Defnyddiai'r Rhaglen dechnegau sefydledig ar gyfer rheoli prosiectau a rhaglenni, ond nes 2008 roedd gwendidau sylweddol yn y modd y caent eu defnyddio

**1.32** Ceisiodd y Strategaeth Leoli ddefnyddio technegau rheoli prosiectau a rhaglenni[13] yn seiliedig ar arfer da trwy gydol y broses o gynllunio a chyflawni'r Rhaglen. Fodd bynnag, dywedodd rheolwyr prosiect y Strategaeth Leoli wrthym fod gwendidau yn y modd y câi'r technegau hyn eu cymhwyso, ac nad oeddynt yn cael eu defnyddio i'w potensial llawn.

**1.33** Ni chafodd y rhan fwyaf o dîm y Rhaglen hyfforddiant ar ddefnyddio technegau rheoli rhaglenni a phrosiectau tan 2008, yn dilyn ailstrwythuro trefn lywodraethu'r Rhaglen. Roedd yr hyfforddiant yn hyrwyddo dull cyffredin o reoli rhaglenni a phrosiectau ar draws y tîm. Dywedodd sawl un o swyddogion Llywodraeth Cymru a hyfforddwyd yn y technegau hyn fod yr hyfforddiant wedi creu manteision uniongyrchol i'r Rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys gweld y Strategaeth Leoli fel rhaglen integredig yn hytrach na chasgliad o brosiectau unigol, a fu'n destun beirniadaeth yng nghyfnod cyntaf y Rhaglen.

### Yn dilyn Adolygiad Gateway 0 yn 2008, rhoddodd Llywodraeth Cymru gamau ar waith i sicrhau bod eu timau rhaglen a phrosiect yn cyflogi'r bobl iawn â'r sgiliau perthnasol

**1.34** Mae arfer da'n cynghori ei bod hi'n bwysig buddsoddi amser yn ffurfio'r timau prosiect iawn. Mae'n bwysig asesu ansawdd a phrofiad unigolion a'u gallu i weithio gyda'i gilydd fel rhan o dîm prosiect integredig, a sefydlu timau prosiect ar y cam cynharaf posibl.[14]

**1.35** Gofynnwyd i swyddogion a oedd yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen pa brif ffactorau oedd yn gysylltiedig â llwyddiant y Strategaeth Leoli yn eu barn hwy. Dywedodd dros eu hanner fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu timau prosiect gyda'r bobl iawn yn meddu ar y sgiliau, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad iawn yn dilyn Adolygiad Gateway 0 a'r newidiadau dilynol i drefn lywodraethu'r Rhaglen. Amlygodd adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd ar brosiect swyddfa Cyffordd Llandudno hefyd fod cael y cyfuniad cywir o rolau, sgiliau traws sector a phrofiad wedi'i gwneud hi'n bosibl cyflawni'r prosiect yn llwyddiannus. Nododd Adolygiad Gateway 0 fod timau'r prosiectau yn gryfder arbennig yn y Rhaglen, gan nodi'r gwelliannau a gyflawnodd Llywodraeth Cymru yn hyn o beth.

**1.36** Yn dilyn Adolygiad Gateway 0 2008 a chyflwyno trefniadau llywodraethu newydd, aeth Llywodraeth Cymru ati i gydleoli timau prosiect er mwyn hwyluso gwaith mwy integredig. Un enghraifft o hyn oedd cydleoli tîm prosiect cleient a thîm adeiladu Cyffordd Llandudno. Dywedodd y timau prosiect fod cydleoli fel hyn wedi creu manteision drwy sicrhau cyfathrebu gwell, dull mwy cydgysylltiedig o weithredu ar draws y

13 Mae arfer da o ran technegau rheoli prosiectau a rhaglenni yn cynnwys PRINCE2, dull yn seiliedig ar broses ar gyfer rheoli prosiectau'n effeithiol a ddefnyddir yn helaeth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, y sector preifat ac yn rhyngwladol; Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus, fframwaith yn cynnwys cyfres o egwyddorion a phrosesau i'w defnyddio wrth reoli rhaglen; a Rheoli RIsg, sy'n ystyried risg o wahanol safbwyntiau mewn sefydliad: o safbwynt strategol, safbwynt rhaglen neu brosiect a safbwynt gweithredol, a hefyd yn cysylltu ag Arfer Gorau Swyddfa'r Cabinet.

14 *The Integrated Project Team, team working and partnering*, Swyddfa Masnach y Llywodraeth, 2007.



prosiectau a phroses gyflymach o wneud penderfyniadau.

**Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer gwersi a ddysgwyd ar gyfer pob un o brosiectau'r Rhaglen, a chyfleu'r hyn a ddysgwyd o fewn Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach**

**1.37** Mae canllawiau arfer da wrth werthuso a meincnodi prosiect[15] yn amlygu'r angen i rannu gwersi a ddysgwyd rhwng prosiectau, nid dim ond o fewn yr un sefydliad, ond ar draws y llywodraeth hefyd. Datblygodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Gwersi a Ddysgwyd i gasglu a rhannu'r gwersi a ddysgwyd o bob un o brosiectau'r Rhaglen, ond ni nodai'r strategaeth sut y dylid rhannu'r gwersi a ddysgwyd, ac â phwy. O fewn y Rhaglen, defnyddiodd Llywodraeth Cymru lawer o'r gwersi allweddol a ddysgwyd ym mhrosiect Merthyr Tudful yn ei gwaith ar brosiectau Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Roedd y gwersi'n cynnwys mwy o gydnabyddiaeth i faterion adnoddau dynol ar gyfer cyflawni newid; pwysigrwydd cyfathrebu â staff; a defnyddio arfer da wrth reoli prosiect, gan roi sylw arbennig i arweinyddiaeth, cynllunio, modelu ariannol, a rheoli cyllidebau prosiectau.

**1.38** Rhannodd Llywodraeth Cymru beth o'r wybodaeth a'r profiad a enillodd drwy'r Strategaeth Leol ar gyfer rheoli prosiectau a rhaglenni ar draws y sefydliad a'r sector cyhoeddus ehangach. Trefnodd secondiad aelod allweddol o dîm rhaglen y Strategaeth Leoli i Gyngor Sir Conwy, cyflwynodd seminar Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru[16] yng Nghyffordd Llandudno a rhannodd wersi a ddysgwyd ar draws Llywodraeth Cymru a sefydliadau llywodraeth ganol eraill yng Nghymru, megis y Swyddfa Eiddo Deallusol a'r DVLA. Yn ogystal, mae mwyafrif aelodau tîm craidd Rhaglen y Strategaeth Leoli yn dal i weithio ar brosiectau Llywodraeth Cymru, felly maent mewn sefyllfa dda i gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd yn eu gwaith ar brosiectau cyfredol.

## Yn ei 10 mlynedd gyntaf, mae Rhaglen y Strategaeth Leoli wedi costio dros £91 miliwn i'w darparu, ond heb amcangyfrifon cadarn o gyfanswm cost y Rhaglen, mae'n anodd pennu a gafodd ei darparu mewn modd cost-effeithiol

**1.39** Ni aeth Llywodraeth Cymru ati i gyfrif nac adrodd ar gyfanswm cost derfynol Rhaglen y Strategaeth Leoli, ond rydym wedi amcangyfrif ei bod wedi gwario dros £91 miliwn ar y Rhaglen rhwng 2002 a 2011 (Ffigur 4). Nid yw cyfanswm y gost yn cynnwys cost rhai aelodau o staff, am nad aeth Llywodraeth Cymru ati i fonitro costau swyddogion a weithiai ar y Rhaglen dros gyfnod o bron 10 mlynedd.

15 *Improving performance, project evaluation and benchmarking*, Swyddfa Masnach y Llywdoraeth, 2007.

16 Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, cyfrwng darparu polisi ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ei rôl yw helpu'r diwydiant adeiladu i wella'i berfformiad er mwyn sicrhau ansawdd gwell a mwy o werth am arian i'w gleientiaid a'i ddefnyddwyr terfynol. Mae'n hyrwyddo cydweithredu ac arferion gorau ar draws y diwydiant ac yn annog unigolion a sefydliadau i rannu eu profiadau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth â'r diwydiant ehangach.

## Ffigur 4 – Costau Rhaglen y Strategaeth Leoli 2002 i 2011

| | Merthyr Tudful | Aberystwyth | Cyffordd Llandudno | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Costau (£ miliynau)** | | | | |
| Cost Adeiladu | 7.3 | 20.9 | 20.7 | 48.9 |
| Cost Tir | 0.4 | 1.2 | 0 | 1.6 |
| Ffioedd | 0.7 | 3 | 1.5 | 5.2 |
| Dodrefn | 1.4 | 1.8 | 2 | 5.2 |
| Costau TG | 0.7 | 2.4 | 1.4 | 4.5 |
| Costau Lesio | 18.8[1] | - | - | 18.8 |
| Costau cyfnod 1 ac oedi ac adolygu Cyffordd Llandudno | - | - | 2.3 | 2.3 |
| Cyfanswm adeiladu | 29.3 | 29.3 | 27.9 | 86.5 |
| **Costau adleoli** | | | | |
| Costau Teithio Ychwanegol | 2.1 | 0.1 | 0.3 | 2.5 |
| Lwfans Amhariad | 0.5 | 0.2 | 0.7 | 1.4 |
| Costau Adleoli | 0.1 | 0.3 | 0.4 | 0.8 |
| Benthyg beiciau modur/ ceir | 0.3 | - | - | 0.3[2] |
| Cyfanswm adleoli | 3 | 0.6 | 1.4 | 4.7 |
| **Cyfanswm** (adeiladu + adleoli) | **32.3** | **29.9** | **29.3** | **91.5** |

Nodiadau:

1 Mae costau lesio swyddfa Merthyr Tudful ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2006 a mis Rhagfyr 2021.

2 Mae'r benthyciadau hyn wedi'u hadennill ers hynny

*Ffynhonnell: Cyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar sail ffigurau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru*



1.40 Er bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ymgynghorwyr costau annibynnol i ddilysu costau adeiladu pob swyddfa o'r cam dylunio i'r gwaith adeiladu, mae'n anodd pennu a gyflawnodd Llywodraeth Cymru y rhaglen gyffredinol mewn modd cost-effeithiol, a hynny am na osododd Llywodraeth Cymru gyllideb gyffredinol ar gyfer y Rhaglen nes 2008. Gwelsom fod Llywodraeth Cymru ond wedi mynd ati i fonitro cyfanswm costau'r rhaglen fel mater o drefn ar ôl 2008, pan gytunodd y Gweinidog ar gyllideb o £53.3 miliwn ar gyfer gweddill y rhaglen.

1.41 Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru gyfanswm costau'r rhaglen ar wahanol gamau yn ystod y Rhaglen. Fodd bynnag, nid oedd yr amcangyfrifon yn gadarn, ac roedd amcangyfrifon gwahanol yn cynnwys gwahanol eitemau o gostau. Hefyd, ni ddefnyddiwyd yr un o'r amcangyfrifon fel cyllideb ar gyfer monitro gwariant y rhaglen yn ei herbyn. O ystyried natur unigryw'r Rhaglen, nid oedd fawr ddim arall heblaw monitro gwariant yn erbyn y gyllideb, y gellid ei wneud i gymharu neu feincnodi'r gost alldro yn ei herbyn, neu i bennu a oedd gwariant Llywodraeth Cymru o £91.5 miliwn yn werth da am arian.

1.42 Lle'r oedd Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif cyfanswm cost y Rhaglen, roedd yr amcangyfrif yn amrywio rhwng £47 miliwn a £100 miliwn:

a Ym mis Ebrill 2003, roedd Tîm y Rhaglen wedi cynghori Bwrdd y Rhaglen y byddai cost gyfalaf y Rhaglen yn £100 miliwn.

b Ym mis Mehefin 2003, nododd papur i'r Cabinet fod cyfanswm y gost ddangosol dros oes y Rhaglen rhwng £47 miliwn a £59 miliwn.

c Ym mis Mai 2004, cynhwysodd yr Achos Busnes Strategol arfarniad ariannol o'r Rhaglen a amcangyfrifai fod cyfanswm costau'r Rhaglen yn £50 miliwn.

ch Ym mis Rhagfyr 2004, amcangyfrifodd yr Achos Busnes Amlinellol fod cost y Rhaglen 'tua £80 miliwn'.

d Ym mis Awst 2008, ymrwymodd y Gweinidog Cyllid yn ffurfiol i ryddhau cyllideb gyfalaf ychwanegol o £53.3 miliwn i dalu am waith adeiladu Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Gan gynnwys costau adeilad Merthyr Tudful a oedd wedi'i gwblhau erbyn hynny, byddai'r ychwanegiad wedi golygu bod cyfanswm cost y rhaglen yn £85.6 miliwn.

1.43 Canfu Adolygiad Gateway 0 2008 wendidau sylweddol yn rheolaethau ariannol y Rhaglen. Nododd yr adolygiad nad oedd unrhyw system ar gyfer rhoi amcangyfrifon wedi'u diweddaru'n barhaol i Fwrdd y Rhaglen ar alldro prosiectau adeiladu Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Yn ogystal, nid oedd gan Fwrdd y Rhaglen y trosolwg strategol angenrheidiol ar gyfanswm costau'r rhaglen i'w alluogi i gyflawni ei rôl lywodraethu yn effeithiol. Roedd Adolygiad Gateway 0 2003 wedi nodi gwendidau tebyg.

1.44 Ymatebodd Llywodraeth Cymru i Adolygiad Gateway 0 2008 drwy sicrhau bod diweddariadau ariannol yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen yn fisol yn y dyfodol i holl Aelodau Bwrdd y Rhaglen eu cymeradwyo. Roedd yr adroddiadau ariannol i Fwrdd y Rhaglen yn cynnwys alldro cyfalaf a refeniw ar gyfer y rhaglen yn ei chyfanrwydd, yn ogystal â'r rhagolygon gwariant ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

# Rhan 2 – Darparodd Llywodraeth Cymru yr adeiladau swyddfa newydd i'r safon ddisgwyliedig ac o fewn y costau a gontractiwyd, ond wynebodd anawsterau wrth adleoli swyddi i'r swyddfeydd newydd

## Darparodd Llywodraeth Cymru yr adeiladau swyddfa newydd i'r safon ddisgwyliedig ac o fewn y costau a gontractiwyd

### Cyllidwyd y gwaith o adeiladu swyddfa Merthyr Tudful drwy gytundeb prynu ar brydles ddrutach gan nad oedd digon o arian cyfalaf ar gael ar y pryd

**2.1** Prosiect Merthyr Tudful oedd prosiect adeiladu cyntaf y Rhaglen. Hysbysebodd Llywodraeth Cymru y prosiect yn yr OJEU, gan wahodd tendrau ar gyfer adeiladu'r adeilad yn ôl dyluniad wedi'i benderfynu ymlaen llaw, gan nodi y byddai cyllido'n digwydd drwy brynu ar brydles yn hytrach na chyllid cyfalaf. Ar yr adeg yr ymrwymodd Llywodraeth Cymru i'r prosiect adeiladu yn hysbysiad yr OJEU, nid oedd wedi archwilio opsiynau posibl eraill yn llawn, megis rhannu adeiladau swyddfa neu ailddatblygu adeilad a fodolai'n barod.

**2.2** Yn ystod haf 2003, ac ar ôl hysbysebu'r prosiect yn yr OJEU, dechreuodd Llywodraeth Cymru bryderu bod ei hamcangyfrifon yn dangos cynnydd na ellid ei fforddio yng nghost y prosiect, a chomisiynwyd adolygiad o'r prosiect a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Medi 2003.[17] Roedd yr adolygiad yn cynnwys arfarniad economaidd a nododd mai cyllid cyfalaf fyddai wedi cynnig y gwerth gorau am arian. Fodd bynnag, gan nad oedd cyllid cyfalaf ar gael i ariannu'r prosiect, yr opsiynau fyddai gohirio dechrau'r prosiect nes bod digon o arian cyfalaf ar gael, neu ariannu'r prosiect drwy ffyrdd eraill, megis prydles. Roedd adolygiad mis Medi 2003 yn feirniadol o fethiannau i gynnwys y canlynol yn hysbysiad yr OJEU:

- **a** opsiwn pryniant cyfalaf; ac
- **b** opsiwn dylunio ac adeiladu llawn, a fyddai wedi ehangu'r gystadleuaeth a'r potensial am ddyluniadau arloesol.

**2.3** Ym mis Mai 2004, penododd Llywodraeth Cymru David McLean Developments yn brif gyllidwr y brydles, ac is-gontractio'r gwaith adeiladu i Carillion Construction Cyf. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar gontract prynu ar brydles o £1.3 miliwn y flwyddyn am 15 mlynedd o fis Rhagfyr 2006 ymlaen. Oherwydd hyn, ni fydd Llywodraeth Cymru pia adeilad swyddfa Merthyr Tudful tan fis Rhagfyr 2021.

**2.4** Ar ôl dyfarnu'r contract adeiladu, gwahoddodd y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau Gomisiwn Dylunio Cymru[18] i gynnal adolygiad o'r gwaith dylunio. Ym mis Awst 2004, awgrymodd y Comisiwn nifer o newidiadau sylweddol i'r dyluniad, a derbyniwyd y rhain gan Lywodraeth Cymru. Roeddynt yn cynnwys troi'r adeilad 180 gradd a newid ei siâp er mwyn gwella agweddau esthetig a mynediad i gwsmeriaid, newidiadau

17 *Adolygiad Sicrwydd Prosiect Swyddfa Merthyr Tudful,* Llywodraeth Cymru, Medi 2003.Yn dilyn pryderon ynglŷn â chost bosibl/fforddiadwyedd swyddfa arfaethedig Merthyr Tudful, comisiynodd y Prif Berchennog Cyfrifol adolygiad ffurfiol i geisio sicrwydd ynglŷn â chost, fforddiadwyedd ac agweddau'n ymwneud â chaffael a rheoli prosiect y ddarpariaeth arfaethedig.

18 Sefydliad cenedlaethol a sefydlwyd yn 2002 gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo dylunio da ac amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel yw Comisiwn Dylunio Cymru. Mae'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn darparu ymgynghoriadau cynnar ar argymhellion datblygu arwyddocaol drwy roi cyngor proffesiynol arbenigol ac annibynnol, gan arwain at argymhellion ar gyfer gwella a mwy o werth am arian.



i leihau cost y deunyddiau a ddefnyddid, a newidiadau i wella perfformiad amgylcheddol.

**2.5** Ar ddiwedd y cytundeb prynu ar brydles, disgwylir y bydd swyddfa Merthyr Tudful wedi costio £29.3 miliwn, £400,000 yn is na'r gyllideb a osodwyd ym mis Medi 2003 (Ffigur 5). Er na fu'n bosibl i ni ddilysu rhai costau'n fanwl, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod arbedion mewn rhannau eraill o'r prosiect, er enghraifft defnyddio peirianneg gwerth i dorri £400,000 oddi ar wariant ar dechnoleg gwybodaeth a ffioedd is, yn gwrthbwyso'r costau ychwanegol a ddeilliai o ail-ddylunio ym mis Awst 2004. Bydd Llywodraeth Cymru yn caffael yr adeilad am £1 pan ddaw'r brydles i ben.

**Ffigur 5 – Costau adeilad swyddfa Merthyr Tudful**

| Eitem | Cyllideb (£ miliynau) | Costau Gwirioneddol (£ miliynau) |
|---|---|---|
| Cost Adeiladu | 7.2 | 7.3 |
| Cost Tir | 0.4 | 0.4 |
| Ffioedd | 0.8 | 0.7 |
| Dodrefn | 1.4 | 1.4 |
| Costau TG | 1.1 | 0.7 |
| Costau lesio | 18.8 | 18.8 |
| **Cyfanswm** | **29.7** | **29.3** |

*Ffynhonnell: Adroddiad Terfynu Prosiect Merthyr Tudful, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2008.*

## Cwblhaodd Llywodraeth Cymru brosiect adeiladu Aberystwyth ar amser ac o dan gost darged y contract, er bod y prosiect wedi costio £8.4 miliwn yn fwy na'r gyllideb a osodwyd yn yr achos busnes

**2.6** Ym mis Mawrth 2004, mynegodd Cyngor Sir Ceredigion ddiddordeb mewn lleoli i safle newydd wrth ymyl swyddfa arfaethedig Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth. Gyda'r nod o sicrhau arbedion costau, cytunodd Llywodraeth Cymru i fenter ar y cyd â'r Cyngor i gomisiynu'r gwaith o ddylunio ac adeiladu swyddfeydd ar gyfer eu rhannu. Argymhellodd y Cyngor adeiladau lled-wahanedig a rhannu ffreuturau a mannau cyhoeddus, ond roedd angen adeilad ar wahân ar Lywodraeth Cymru gyda diogelwch ychwanegol a dylunio mewnol gwell, a gosodiadau a ffitiadau i sicrhau statws 'rhagorol' BREEAM. Cytunodd y ddau barti i gyd-gaffael y gwaith o ddylunio ac adeiladu'r ddau adeilad swyddfa sydd fel arall yn union yr un fath.

**2.7** Amcangyfrifodd arfarniad opsiynau Llywodraeth Cymru yn Achos Busnes Amlinellol Rhagfyr 2004 y byddai'r gost o ddylunio ac adeiladu'r ddau adeilad yn £12.5 miliwn yr un, sef y swm a ddefnyddiwyd yn yr amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer y contract adeiladu. Fodd bynnag, ni seiliodd Llywodraeth Cymru yr amcangyfrif cyn tendr hwn ar ddyluniad manwl ac nid oedd yr amcangyfrif yn cynnwys ystyriaeth o duedd optimistiaeth na chwyddiant. Cafodd yr amcangyfrif ei seilio'n bennaf ar gostau prosiect Merthyr Tudful gan roi rhywfaint o ystyriaeth i'r lleoliad a chwyddiant. Fodd bynnag, tyfodd yr adeiladau i fod yn wahanol iawn o ran eu natur a'u hadeiladwaith.

**2.8** Cynigiodd Llywodraeth Cymru a'r Cyngor dendr ar y cyd ar gyfer dylunio ac adeiladu'r ddau adeilad ym mis Rhagfyr 2005. Er nad oedd hysbyseb yr OJEU[19] yn cynnwys amcangyfrif o gost, yn dilyn gwaith dylunio pellach ar y pryd, disgwyliai'r Cyngor a Llywodraeth Cymru y byddai'r adeiladu'n costio tua £13.5 miliwn yr un.

**2.9** Ym mis Medi 2006, dyfarnodd Llywodraeth Cymru a'r Cyngor gontract dylunio ac adeiladu sengl ar gyfer y ddwy swyddfa i Carillion. Er bod dyluniad manwl yr adeilad yn dal yn anghyflawn ar y pryd, roedd yr amcangyfrif o gost adeiladu'r swyddfeydd yn £14.7 miliwn yr un.[20] Fodd bynnag, yn dilyn gwaith dylunio pellach, amcangyfrifodd Carillion y byddai'r gost o adeiladu eu cynllun ar gyfer y swyddfeydd bron yn £20 miliwn yr un. Achosodd y cynnydd yn yr amcangyfrif o gost y swyddfeydd i'r Cyngor a Carillion geisio gostwng y costau. Er bod y Cyngor wedi cynyddu ei gyllideb i £15 miliwn, ni allai Carillion ostwng yr amcangyfrif o gost swyddfa Ceredigion ymhellach nag ychydig o dan £16 miliwn, drwy leihau manyleb y swyddfa'n sylweddol. Penderfynodd y Cyngor nad oedd yr adeilad yn fforddiadwy, ac ym mis Mehefin 2007, gweithredodd y cymal terfynu yn eu contract cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Wedi hynny, dyfarnodd y Cyngor y contract i Wilmot Dixon, y contractwr yn yr ail le ar y rhestr fer ar gyfer eu caffael. Cwblhaodd Wilmot Dixon y gwaith ar swyddfa'r Cyngor ym mis Mehefin 2009. Dywedodd y Cyngor wrthym mai cost derfynol y gwaith adeiladu oedd £15.4 miliwn.

**2.10** Yn dilyn y cam dylunio, roedd manylebau'r ddau adeilad yn bur wahanol, ac mae adeilad Llywodraeth Cymru 280m2 yn fwy o faint, ac mae trefniadau diogelwch a manyleb fewnol yr adeilad yn well. Penderfynodd Llywodraeth Cymru fod y gost amcangyfrifedig o tua £21 miliwn yn fforddiadwy ac yn werth da am arian.

**2.11** Cytunodd Llywodraeth Cymru ar gontract pris targed gyda Carillion[21] a oedd yn werth £21 miliwn ar gyfer adeiladu ei swyddfa yn Aberystwyth. Cwblhaodd Carillion y gwaith adeiladu ym mis Gorffennaf 2009 ar gost o £20.8 miliwn, £200,000 yn is na'r pris targed. I gyd-fynd â chymhellion o fewn y contract, cyfanswm y gost i Lywodraeth Cymru am y gwaith adeiladu oedd £20.9 miliwn.

**2.12** Roedd y gost o adeiladu swyddfa Aberystwyth £8.4 miliwn (67 y cant) yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol yn Achos Busnes Amlinellol Rhagfyr 2004 a £6.1 miliwn (43 y cant) yn uwch na'r amcangyfrif cyntaf o gost ddangosol Carillion. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod yr amcangyfrifon hyn yn gadarn na'n gywir, ac roeddynt wedi'u seilio ar gyfarwyddyd dylunio cyfyngedig iawn. Ni fyddai cost gadarn a chywir yn hysbys nes cwblhau'r gwaith o ddylunio'r adeilad.

**2.13** Er bod y gost derfynol gryn dipyn yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol, gwelsom fod pob un o'r pum cwmni a gyflwynodd dendr am y contract i adeiladu swyddfa Aberystwyth wedi cyflwyno cynigion o fewn £1 miliwn i'r tendr o £14 miliwn a gyflwynwyd gan Carillion. Mae prisiau tendr tebyg yn rhoi rhywfaint o sicrwydd fod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu'r contract am bris teg. Er hynny, roedd natur y contract math NEC3 (Blwch 3) a ddefnyddiwyd ar gyfer prosiect Aberystwyth yn golygu nad oedd y cyfarwyddyd cynllunio ar gyfer yr adeilad wedi'i ddatblygu'n llawn pan benodwyd Carillion. Ar y cam hwn, nid oedd Llywodraeth Cymru dan rwymedigaeth gontractiol i gontract adeiladu. Er mwyn

19 Cyhoeddir cyfnodolyn swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar-lein ac mae'n cynnwys hysbysiadau, ynghyd â gwahoddiadau i dendro, hysbysiadau gwybodaeth ymlaen llaw, systemau cymwysterau a hybysiadau dyfarnu contractau.

20 Official Journal of the European Union, Contract Award Notice, Medi 2006.

21 Mewn 'contract pris targed', mae'r cleient a'r contractwr yn gweithio tuag at bris targed a gytunwyd, naill ai drwy rannu unrhyw arbedion os yw'r gost derfynol yn is na'r targed neu rannu unrhyw orwariant os yw'r gost derfynol yn uwch na'r targed.



datblygu cynllun yr adeilad a chytuno ar bris targed ar gyfer adeiladu swyddfa Aberystwyth, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i Gontract Gwasanaethau Proffesiynol[22] â Carillion. Pan wnaed hyn, nodwyd nifer o elfennau o gost sylweddol a'u cynnwys yn y cynllun. Ar ôl cytuno'n derfynol ar y cynllun, roedd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gytuno ar gost darged ar gyfer contract adeiladu gyda Carillion.

**Blwch 3 – contractau NEC3**

Datblygwyd y gyfres o gontractau NEC3 mewn ymateb i ddiwydiant adeiladu a oedd yn wynebu nychdod costau'n gor-redeg, oedi ac anghydfod.
System o gontractau a grëwyd gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil yw Contractau Peirianneg ac Adeiladu NEC, sy'n arwain y gwaith o ddrafftio dogfennau ar brosiectau peirianneg sifil ac adeiladu ar gyfer sicrhau, dyfarnu a gweinyddu tendrau. Bwriedir i'r contractau:

- hyrwyddo'r defnydd o arferion rheoli prosiect cadarn;
- diffinio'n eglur y berthynas gyfreithiol rhwng y cyflogwr a'r contractwr; a
- rhannu risg yn deg rhwng y cyflogwr a'r contractwr.

**2.14** Ym mis Chwefror 2009, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad[23] i gymharu cost adeiladu ei swyddfeydd newydd â chost y swyddfeydd a adeiladwyd ar ran Cyngor Sir Ceredigion, gan ragweld heriau fod Llywodraeth Cymru wedi talu mwy nag y dylai am ei adeilad. Fodd bynnag, ni chafodd yr adolygiad weld unrhyw ddata ffynhonnell ar y fanyleb na chost yr adeilad a bu'n rhaid iddo seilio'i adolygiad ar ymweliadau safle a thrafodaethau â'r pensaer a'r peiriannydd mecanyddol a thrydanol a fu'n gweithio ar brosiect y Cyngor.

**2.15** Nododd yr adroddiad nifer o wahaniaethau sylweddol rhwng manylebau'r ddau adeilad. Daeth i'r casgliad y gellid priodoli'r rhan fwyaf o'r gwahaniaeth yn y gost i wahaniaethau dylunio, ac yn arbennig, y gwelliannau i'r ffrâm adeiladu, peirianneg fecanyddol a thrydanol, gwaith allanol, perfformiad amgylcheddol adeilad Llywodraeth Cymru a'r ffaith fod arwynebedd llawr adeilad Ceredigion yn llai o faint nag adeilad Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, golygodd absenoldeb costau manwl na allai'r adolygiad fesur gwerth y gwahaniaethau yn y gwaith dylunio.

### Ar ôl dechrau anodd, penderfynodd Llywodraeth Cymru ail-gaffael y contract ar gyfer swyddfa Cyffordd Llandudno, a arweiniodd at dorri tua £10 miliwn oddi ar gost ragamcanol y prosiect

**2.16** Yn yr amserlen wreiddiol ar gyfer y Rhaglen, roedd Llywodraeth Cymru wedi bwriadu cwblhau swyddfa Cyffordd Llandudno cyn dechrau adeiladu swyddfa Aberystwyth. Fodd bynnag, oherwydd cynnydd yn y gost ragamcanol, gweithredodd Llywodraeth Cymru y cymal terfynu rhwng y cam dylunio a'r cam adeiladu ar gyfer prosiect Cyffordd Llandudno ym mis Medi 2007, gan beri oedi yn y prosiect. O ganlyniad, roedd y gwaith ar adeilad Cyffordd Llandudno ar ei ganol pan gwblhawyd y gwaith ar brosiect Aberystwyth.

### Gwnaeth Llywodraeth Cymru y penderfyniad cywir i ail-gaffael y gwaith o adeiladu swyddfeydd Cyffordd Llandudno am fod cost ragamcanol y prosiect yn cynyddu

**2.17** Ym mis Mai 2006, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract gwasanaethau proffesiynol ar gyfer cam dylunio swyddfeydd Cyffordd Llandudno i HBG Cyf, ac roedd y contract adeiladu i'w drafod ar ôl cwblhau'r costau adeiladu. Cost amcangyfrifedig y gwaith adeiladu ar y pryd oedd £13.5 miliwn.

22 Mae'r contract hwn ar gyfer unrhyw un sy'n darparu gwasanaeth, yn hytrach na gwaith adeilau ffisegol. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer penodi rheolwyr prosiect, goruchwylwyr, dylunwyr, ymgynghorwyr neu gyflenwyr eraill o dan gontractau NEC.

23 Cynhaliwyd yr adolygiad gan yr arbenigwyr eiddo annibynnol, Chandler KBS.

**2.18** Bedwar mis yn ddiweddarach, yn dilyn gwaith dylunio manwl ar yr adeilad, roedd yr amcangyfrif o'r gost adeiladu wedi codi i £19.7 miliwn, o gymharu ag amcangyfrif Llywodraeth Cymru cyn y tendr o £12.5 miliwn a oedd wedi'i gynnwys yn ei Wahoddiad i Dendro yn yr OJEU[24]. Ymestynnodd Llywodraeth Cymru y cam dylunio er mwyn cynnwys addasiadau, ond ychydig o effaith a gafodd hyn ar leihau'r costau adeiladu. Erbyn mis Chwefror 2007, roedd yr amcangyfrif o'r costau dylunio ac adeiladu wedi codi i £26.3 miliwn, mwy na dwbl yr amcangyfrif gwreiddiol o'r gost. Gan gynnwys dodrefn, gosodiadau, ffitiadau a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, amcangyfrifodd ymgynghorwyr costau Llywodraeth Cymru fod y gost tua £30 miliwn, yn debygol o godi ymhellach, ac y byddai'r prosiect wedi cymryd 30 wythnos ychwanegol i'w gyflawni. Oedodd Llywodraeth Cymru y prosiect i'w galluogi i adolygu pam oedd y costau wedi cynyddu a'r amserlen wedi ymestyn i'r fath raddau.

**2.19** Canfu'r adolygiad[25] fod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y cynnydd yn yr amcangyfrif o'r gost a'r amserlen estynedig ar gyfer y prosiect, yn cynnwys newidiadau dylunio a methiant Llywodraeth Cymru i gydgysylltu'r broses ddylunio'n effeithiol a olygai nad oedd gan y contractwr dylunio wybodaeth gyflawn o ofynion Llywodraeth Cymru. Roedd yr amcangyfrif o gostau wedi cynyddu i lefel a oedd mewn perygl o dramgwyddo yn erbyn rheoliadau caffael yr Undeb Ewropeaidd am fod y contract wedi tyfu'n sylweddol wahanol i'r hyn a hysbysebwyd yng Ngwahoddiad i Dendro yr OJEU. Ym mis Medi 2007, ar ôl dod â'r contract cam dylunio i ben, penderfynodd y Gweinidogion beidio â dyfarnu'r contract adeiladu i'r contractwr presennol, gan weithredu cymal terfynu rhwng cam dylunio a cham adeiladu'r contract. Roedd Llywodraeth Cymru yn iawn i oedi ac adolygu'r prosiect ac arweiniodd y weithred hon at dorri tua £10 miliwn oddi ar or-rediad y costau rhagamcanol.

**Bu mwy o sicrwydd costau yn fodd o helpu Llywodraeth Cymru i gwblhau'r prosiect adeiladu a ailgychwynnodd yng Nghyffordd Llandudno yn ôl y gyllideb ddiwygiedig**

**2.20** Yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol pellach, ym mis Hydref 2008 dyfarnodd Llywodraeth Cymru y contract adeiladu ar gyfer swyddfa Cyffordd Llandudno i Pochins, ar gost o £20.8 miliwn. Cwblhaodd Pochins y gwaith adeiladu ar gost o £20.8 miliwn ym mis Ebrill 2010. Cyfanswm cost y prosiect, yn cynnwys dylunio, adeiladu, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, dodrefn, gosodiadau, ffioedd i gontractwyr eraill, er enghraifft yr Asiant Rheoli, a ffioedd yn deillio o oedi'r prosiect, oedd £27.9 miliwn.

**2.21** Gwelsom fod Llywodraeth Cymru wedi dysgu'r gwersi o'r ymarfer caffael cyntaf a bod gwelliannau sylweddol yn y gwaith o reoli prosiect Cyffordd Llandudno yn dilyn ail-gaffael y contract adeiladu. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru weithdrefnau rheoli newid a threfniadau llywodraethu cadarnach, yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau mwy eglur. Hefyd, datblygodd fanyleb lawer tynnach er mwyn i'r contractwr wybod yn well beth oedd gofynion Llywodraeth Cymru, ac o ganlyniad, gallodd ddod o hyd i ffyrdd o leihau costau adeiladu.

24 Bydd rhestr fer o ymgeiswyr sy'n cael eu dewis drwy Holiadur Cyn Cymhwyso yn derbyn y Gwahoddiad i Dendro, i'w galluogi i wneud cynnig ffurfiol a manwl i ddarparu'r gwasanaethau neu'r nwyddau sydd eu hangen. Dylai'r Gwahoddiad i Dendro gynnwys yr holl wybodaeth a manylion sydd eu hangen i alluogi'r sawl sy'n gwneud y cais i lunio tendr llawn ar gyfer y gofyniad.

25 Oedi ac Adolygu Caffael Adeilad Swyddfa Cyffordd Llandudno. Llywodraeth Cymru, Awst 2007.



## Wynebodd Llywodraeth Cymru anhawster wrth adleoli swyddi i'r swyddfeydd newydd

**2.22** Un prosiect cleient allweddol yn Rhaglen y Strategaeth Leoli oedd rheoli'r broses o adleoli swyddi ar gyfer eu symud i'r adeiladau newydd (Atodiad 4). Byddai hawl gan weithiwr i ddilyn ei swydd pe bai'n symud i un o'r swyddfeydd newydd, a byddai pecyn ariannol i annog pobl i symud gyda'u swyddi. Byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio dod o hyd i swyddi amgen yn eu lleoliad presennol i bobl nad oedd yn dymuno symud.

### Arweiniodd uno Cyrff a Noddir â Llywodraeth Cymru yn 2006 at gynnydd sylweddol yn niferoedd staff Llywodraeth Cymru a maint ei hystâd

**2.23** Ym mis Ebrill 2006, unodd pedwar Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC) â Llywodraeth Cymru, gan gynyddu ystâd y Llywodraeth o 70 i 93 eiddo ac ychwanegu 1,400 aelod o staff. Adeg cyhoeddi'r uno ym mis Gorffennaf 2004, roedd Llywodraeth Cymru newydd brynu'r safle ar gyfer swyddfa Merthyr Tudful ac roedd hi'n ddyddiau cynnar iawn ar y gwaith o gynllunio swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno.

**2.24** Ym mis Gorffennaf, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod uno'r CNLC ac agenda Creu'r Cysylltiadau[26] yn mynd i effeithio ar Raglen y Strategaeth Leoli, gan y byddai angen i'r adeiladau newydd sicrhau lle ar gyfer mwy o weithwyr ac amrywiaeth ehangach o weithgareddau nag a ragwelwyd yn flaenorol. Penderfynodd Llywodraeth Cymru felly fod yr uno'n creu cyfle i swyddfa Gogledd Cymru sicrhau lle i staff o dri o'r CNLC oedd â phresenoldeb yng Ngogledd Cymru eisoes – Dysgu ac Addysgu Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru.

**2.25** Er mwyn gwneud lle i'r staff ychwanegol, cynyddodd Llywodraeth Cymru y capasiti a gynlluniwyd ar gyfer swyddfa Gogledd Cymru o 550 i 650 aelod o staff, a chapasiti swyddfa Aberystwyth o 500 i 535 aelod o staff. Hefyd, amcangyfrifodd y byddai costau'r Rhaglen yn codi rhwng £5 miliwn a £7 miliwn yn ystod 2005-06.

### Ymgynghorwyd yn eang â staff ynglŷn â'r rhannau o'r Strategaeth a allai effeithio arnynt er bod yr ymgynghoriad wedi arwain at rai costau ychwanegol ac oedi yn y gwaith o ddylunio adeilad Aberystwyth

**2.26** Nododd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y Strategaeth Leoli a gynhyrchwyd ym mis Rhagfyr 2004 mai un o'r meysydd gwaith allweddol wrth wella, adolygu a datblygu'r Strategaeth, oedd ymgynghori â staff i ystyried eu hanghenion o ran dyluniad yr adeiladau a'r prosiectau cleient perthnasol.

**2.27** Dywedodd staff a wynebai'r posibilrwydd o adleoli fod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Strategaeth Leoli yn drwyadl ac yn effeithiol, yn enwedig o ystyried eu gwahanol anghenion a disgwyliadau. Ymgynghorwyd â staff ynglŷn â dyluniad a chynllun y cyfleusterau, y broses adleoli a digolledu'r rhai a gâi eu heffeithio. Roedd y cyfle i adleoli i naill ai Aberystwyth neu Gyffordd Llandudno yn agored i bob aelod o staff Llywodraeth Cymru ac roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd ymateb gan unrhyw aelod o staff. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i ymgynghori â staff yn cynnwys cyfarfodydd, ymweliadau safle, holiaduron, gweld modelau, enwi ystafelloedd cyfarfod a dewis gwaith celf. Hefyd, cynhaliodd uwch reolwyr drafodaethau un i un â staff a glustnodwyd ar gyfer eu hadleoli.

26 *Creu'r Cysylltiadau – Cyflawni ar Draws Ffiniau: Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2006.

2.28 Roedd ymgynghori â staff yn rhan hanfodol o'r rhaglen i sicrhau y byddai'r adeiladau yn addas i'r diben ac yn bodloni gofynion gwaith. Fodd bynnag, dywedodd Chandler KBS, yr Asiant Rheoli annibynnol[27] ar gyfer prosiect adeiladu Aberystwyth, fod ymgysylltu â staff wedi achosi oedi cyn cymeradwyo'r gwaith dylunio ar swyddfa Aberystwyth. Hefyd, nododd Adolygiadau Gateway fod rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid yn codi o ymgynghori wedi peri i'r costau gynyddu ac wedi oedi prosiect Merthyr Tudful.

## Arweiniodd adleoli dwy isadran i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful at ddefnydd llawn bron, ond roedd y costau'n sylweddol

2.29 Am fod lefel uchel o amddifadedd cymdeithasol ym Merthyr Tudful a bod y dref o fewn ardal Amcan 1 De Cymru, penderfynodd Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2002 y dylai swyddi yn ei hisadrannau Cyfiawnder Cymdeithasol ac Arian Ewropeaidd symud yno. Pan agorodd swyddfa Merthyr Tudful ym mis Ionawr 2007, symudodd 451 o bobl i mewn i'r adeilad newydd: trosglwyddodd 79 y cant o Gaerdydd, roedd 13 y cant yn weithwyr a recriwtiwyd o'r newydd, ac wyth y cant wedi symud o swyddfeydd eraill Llywodraeth Cymru y tu allan i Gaerdydd (Ffigur 6). Dewisodd deugain o bobl beidio â symud gyda'u swyddi a daeth Llywodraeth Cymru o hyd i swyddi eraill iddynt yng Nghaerdydd. Ar hyn o bryd, gwneir defnydd o 81 y cant o swyddfa Merthyr Tudful ar sail wyth gweithfan i bob 10 o bobl.

### Ffigur 6 – Adleoli swyddi i Ferthyr Tudful ym mis Ionawr 2007

| Is-adran | Lleoliad gwreiddiol | Swyddi a nodwyd | Pobl a symudwyd |
|---|---|---|---|
| Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau<br>Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol<br>Y Gyfarwyddiaeth Dai<br>WEFO<br>Swyddfa Rhaglen y Strategaeth Leoli | Parc Cathays, Caerdydd a Ffynnon Las, Caerdydd | 358 | 319 |
| Gwasanaeth y Swyddogion Rhenti, Swyddfa De Cymru | Mamheilad, Gwent | 19 | 19 |
| WEFO | Cwm Cynon. Aberpennar | 54 | 53 |
| Wedi'u recriwtio | | 60 | 60 |
| **Cyfanswm** | | **491** | **451** |

*Ffynhonnell: Adroddiad Terfynu Prosiect Merthyr Tudful, Llywodraeth Cymru*

27 Penododd Llywodraeth Cymru Asiant Rheoli ar gyfer pob prosiect adeiladu i weithredu fel asiant annibynnol i reoli'r prosiect ar ei rhan.



2.30 Gwelsom fod adleoli swyddi i adeilad Merthyr Tudful yn broses gymharol syml a gynorthwywyd gan benderfyniad cynnar ynglŷn â pha swyddi fyddai'n symud. Roedd symud isadrannau cyfan bron yn gymorth yn hyn o beth, ond ni aeth Llywodraeth Cymru ati yn y ffordd hon i lenwi swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Helpodd pecynnau adleoli a gostiodd gyfanswm o £2.9 miliwn i leddfu gwrthwynebiad cynnar gan rai gweithwyr nad oeddynt yn dymuno symud gyda'u swyddi i Ferthyr Tudful. I weithwyr cymwys, roedd pecynnau adleoli yn cynnwys taliad amhariad o £2,500, talu costau teithio ychwanegol dros bum mlynedd yn hytrach na'r cyfnod safonol o dair blynedd, a darparu beic modur neu gar benthyg drwy flaenswm cyflog yn adaladwy dros chwe blynedd.[28]

## Wynebwyd anawsterau arbennig wrth adleoli swyddi i Aberystwyth a Chyffordd Llandudno yn sgîl newidiadau cyson i'r swyddi a nifer y staff y disgwylid iddynt adleoli

2.31 Ym mis Chwefror 2005, yn dilyn ymgynghori helaeth â'i holl staff, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru adroddiad a nodai amrywiaeth eang o risgiau, pryderon a manteision posibl yn gysylltiedig ag adleoli swyddogaethau i swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno.[29] Y prif risgiau a nodwyd oedd yr effaith ar barhad busnes os oedd swyddogaethau'n symud heb staff presennol, methiant i fodloni amcanion strategol a pholisi allweddol, mwy o bwysau ar staff a'u teuluoedd ac anghysonderau yn y modd y câi gwasanaethau eu darparu. Hefyd, roedd adroddiad Llywodraeth Cymru yn cydnabod rhai pryderon a manteision posibl yn gysylltiedig ag adleoli, er nad yw'n manylu ar y rhain yn benodol.

2.32 Ystyriai Llywodraeth Cymru fod ganddi ddigon o amser i reoli'r risgiau hyn dros y tair blynedd cyn i swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno ddod yn weithredol. Fodd bynnag, wynebodd Llywodraeth Cymru nifer o broblemau wedyn a arweiniodd at fethu â gwneud defnydd llawn o'r ddwy swyddfa newydd.

## Roedd amharodrwydd i symud swyddi i Aberystwyth a Chyffordd Llandudno

2.33 Ym mis Chwefror 2005, clustnododd Llywodraeth Cymru 501 o swyddi i'w hadleoli i Aberystwyth, swyddfa â chapasiti ar gyfer 535 aelod o staff. Roedd y swyddi a glustnodwyd yn perthyn i amryw o feysydd polisi, ond roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â pholisi gwledig, gyda 214 swydd o'r adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad a 120 o Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ar y pryd. Bwriadai Llywodraeth Cymru adleoli 179 o'r swyddi (36 y cant) o Gaerdydd. Roedd symud y rhannau hyn o waith Llywodraeth Cymru i swyddfa Aberystwyth yn gyson â'r nod o symud gwaith Llywodraeth Cymru i leoliadau a oedd yn adlewyrchu natur y gwaith neu'r brif sylfaen gwsmeriaid. Ar yr un pryd, clustnododd Llywodraeth Cymru 525 o swyddi i'w hadleoli i Gyffordd Llandudno, swyddfa â chapasiti ar gyfer ymestyn yn y dyfodol i gynnwys 650 o weithwyr.

2.34 Dros yr ychydig flynyddoedd wedyn, roedd nifer a mathau o swyddi i'w hadleoli i Aberystwyth a Chyffordd Llandudno yn cadw newid. Canlyniad hyn oedd lleihad yn nifer y swyddi a adleoliwyd, gyda llai o swyddi o Gaerdydd yn adleoli i'r swyddfeydd newydd nag a fwriadwyd ym mis Chwefror 2005 (Ffigur 7). Er enghraifft, roedd Llywodraeth Cymru wedi bwriadu symud mwy o swyddi


28 *Adroddiad Terfynu Prosiect Merthyr Tudful,* Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2008.

29 *Strategaeth Leoli –Swyddogaethau ar gyfer swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno,* Llywodraeth Cymru, Chwefror 2005.

polisi i Gyffordd Llandudno gan ddisgwyl y byddai hyd at 180 o'r swyddi hyn yn adleoli o Gaerdydd ond ni ddigwyddodd hynny. Nododd ein hadolygiad o gynlluniau parhad busnes, ffeiliau perthnasol eraill a chyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru nifer o resymau pam oedd nifer y swyddi a adleoliwyd i Aberystwyth a Chyffordd Llandudno yn is na'r bwriad (Ffigur 8).

**Ffigur 7 – Nifer y swyddi y bwriadwyd iddynt adleoli i swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno, a nifer y swyddi a adleoliwyd mewn gwirionedd**


Aberystwyth




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*



Cyffordd Llandudno




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

## Ffigur 8 – Rhesymau dros y nifer llai o swyddi a adleoliwyd i Aberystwyth a Chyffordd Llandudno

| Rheswm | Manylion |
| --- | --- |
| Diswyddo gwirfoddol – lleihad yn niferoedd staff Llywodraeth Cymru yn gyffredinol | Golygodd trefniadau ymadael gwirfoddol Llywodraeth Cymru fod 1,083 o bobl, tua un rhan o bump o'r gweithlu, wedi gadael y sefydliad rhwng 2008-09 a 2011-12. Roedd rhai o'r staff a dderbyniodd ddiswyddiad gwirfoddol wedi hynny yn llenwi rhai o'r swyddi oedd i'w hadleoli. Arweiniodd diswyddo gwirfoddol hefyd at ad-drefnu timau ac isadrannau. |
| Ad-drefnu timau, isadrannau ac adrannau | Nid oedd nifer o'r swyddi a glustnodwyd ar gyfer eu hadleoli ar ddechrau'r broses yn dal i fodoli yn nes ymlaen yn y broses, neu roedd y niferoedd a nodwyd ar gyfer eu hadleoli wedi lleihau. Roedd y newidiadau hyn yn aml yn deillio o adolygiadau Datblygu Sefydliadol a/neu ailstrwythuro is-adrannol, er enghraifft y newidiadau mawr ym mis Mai 2007 ar ddatblygu'r strwythur presennol yn seiliedig ar Gyfarwyddiaethau.<br>Gwelsom enghreifftiau hefyd o swyddi a glustnodwyd ar gyfer eu hadleoli a symudwyd gan Lywodraeth Cymru i isadran arall, ond gwelwyd wedyn nad oedd yr isadran newydd eisiau eu trosglwyddo.<br>Rhwng mis Ionawr 2006 a mis Ebrill 2006, roedd 58 yn llai o swyddi yn adleoli i Aberystwyth oherwydd ailstrwythuro sefydliadol. |
| Roedd angen i rai swyddi aros yng Nghaerdydd | Gwelsom enghreifftiau o gyflwyniadau gan adrannau i'r timau prosiect Cleient yn nodi'r rhesymau pam oedd angen i rai swyddi a glustnodwyd i'w hadleoli aros yng Nghaerdydd ac nad oedd hi'n briodol eu symud i'r swyddfeydd newydd. Er enghraifft, dadleuodd yr adran Gwasanaethau Cyfreithiol nad oedd unrhyw gynlluniau ganddynt i sicrhau presenoldeb parhaol y tu allan i'r canol, h.y. Caerdydd. |
| Diffyg ymwneud rhai swyddogion yn y broses o glustnodi swyddi i'w symud | Dywedodd timau prosiect Cleient wrthym nad oedd rhai swyddogion â chyfrifoldeb dros glustnodi swyddi i'w hadleoli yn eu hisadrannau wedi cymryd rhan weithredol yn y broses. |
| Tueddiad i droi'n ôl at leoli swyddi newydd yng Nghaerdydd yn hytrach nag yn y rhanbarthau neu ar draws Cymru | Anogodd tîm y Rhaglen yr arfer o hysbysebu pob swydd newydd Llywodraeth Cymru fel un ar draws Cymru neu niwtral o ran ei lleoliad. Dywedodd adroddiad i Fwrdd y Rhaglen ym mis Ionawr 2010 fod nifer y swyddi a oedd yn trosglwyddo [o Gaerdydd] yn dal yn llawer rhy isel.<br>Gwelodd adolygiad o swyddi a hysbysebwyd ar fewnrwyd Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2011 fod 22 o'r 23 swydd a hysbysebwyd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd/De-ddwyrain Cymru, un yng Nghanolbarth Cymru a dim un yn y Gogledd. Hefyd, gwelodd yr adolygiad fod nifer y swyddi ym Merthyr Tudful wedi disgyn 10 y cant ers i'r swyddfa agor, tuedd y cyfeiriai'r adolygiad ati fel mater o bryder a oedd, mwy na thebyg, yn amlygu problem ddiwylliannol o ran bod Caerdydd yn dal i gael ei weld fel y lleoliad rhagosodedig ar gyfer swyddi. |


*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru: Cynlluniau Parhad Busnes y Strategaeth Leoli; cyfweliadau a ffeiliau perthnasol eraill.*



**2.35** Prif ddiben y Rhaglen oedd trosglwyddo swyddi o Gaerdydd i'r rhanbarthau, ac roedd yr adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd o'r Strategaeth Leoli yn nodi bod trosglwyddo swyddi o Gaerdydd, a'u cynnal yn y lleoliadau newydd yn fater pwysig.[30] Fodd bynnag, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw ddadansoddiadau o sensitifrwydd i fodelu effaith cymaint o leihad yn y nifer o weithwyr a symudodd i Gyffordd Llandudno neu Aberystwyth ar hyfywedd y prosiectau. Pan oedd Llywodraeth Cymru yn cynllunio'r prosiectau, roedd wedi disgwyl twf yn nifer y swyddi ym mhob agwedd ar waith y Llywodraeth. Fel y digwyddodd hi, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod trosglwyddo swyddi gwag wedi digwydd yr un pryd â'r gwasgu ar gyllidebau adrannol, ac effaith hyn oedd lleihau nifer y swyddi gwag yn cynnwys swyddi i'w trosglwyddo.

**2.36** Roedd y Strategaeth Adleoli wedi argymell y dylid cynyddu nifer yr uwch weision sifil a leolir y tu allan i Gaerdydd, gan sicrhau bod o leiaf un yn fwy ym mhob un o'r tair swyddfa amlddefnydd newydd a gâi eu sefydlu rhwng llunio'r Strategaeth a 2007. Ym mis Ebrill 2013, roedd 13 o swyddi'r uwch wasanaeth sifil wedi'u lleoli ym Merthyr Tudful, dwy yng Nghyffordd Llandudno a dwy yn Aberystwyth (Ffigur 9).

**Ffigur 9 – Lleoliad swyddi'r uwch Wasanaeth Sifil yn Llywodraeth Cymru ar 30 Ebrill 2013**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*


30 *Gwersi a Ddysgwyd o Raglen y Strategaeth Leoli,* Llywodraeth Cymru, Mawrth 2011.

**Effeithiodd colli dros 1,000 o staff Llywodraeth Cymru drwy ddiswyddo gwirfoddol yn sylweddol ar gynlluniau i adleoli swyddi i Aberystwyth a Chyffordd Llandudno**

**2.37** Golygodd cynlluniau ymadael gwirfoddol fod 1,099 o bobl, un rhan o bump o'r gweithlu, wedi gadael Llywodraeth Cymru rhwng 2008-09 a 2012-13. Roedd y dirywiad economaidd yn cyd-daro â'r cyfnod pan oedd Llywodraeth Cymru yn cynllunio i adleoli gweithwyr i'r swyddfeydd newydd yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno, ac nid oedd modd rhagweld y toriadau dilynol i wasanaethau cyhoeddus a arweiniodd at leihau niferoedd staff pan oedd Llywodraeth Cymru yn cynllunio'r prosiectau adeiladu.

**2.38** Digwyddodd y rhan fwyaf o ymadawiadau gwirfoddol rhwng 2010-11 a 2011-12, wedi i swyddfa Aberystwyth agor ac ar ôl cwblhau'r gwaith o adeiladu swyddfa Cyffordd Llandudno (Ffigur 10). Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod y cynllun ymadael gwirfoddol wedi cael peth effaith ar nifer y swyddi a adleoliwyd i swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Roedd natur gyfrinachol y trafodaethau ynglŷn ag ymadael gwirfoddol ag aelodau unigol o staff, nad oedd timau'r Rhaglen Leoli yn rhan ohonynt, ynghyd ag ansicrwydd ynglŷn ag a fyddai aelodau unigol o staff yn derbyn ymadael gwirfoddol, yn gwneud cynlluniau i adleoli swyddi yn fwy cymhleth byth.

**Ffigur 10 – Roedd camau terfynol prosiectau swyddfa Aberystwyth a Chyffordd Llandudno yn cyd-daro â mwy na 1000 o ymadawiadau gwirfoddol o Lywodraeth Cymru**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddogfennau Llywodraeth Cymru*



**2.39** Ychwanegodd y lleihad sylweddol yn nifer y staff a swyddi rhwng 2008-09 a 2011-12, a chynlluniau a oedd weithiau'n newid yn ddyddiol, gryn dipyn o gymhlethdod o ran gallu Llywodraeth Cymru i gynllunio'n fanwl y broses o adleoli staff i'r swyddfeydd newydd. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym mai'r newidiadau yn niferoedd y staff a oedd yn adleoli, ac yn arbennig y nifer is na'r disgwyl o staff yn adleoli o Gaerdydd, oedd y ffactorau a gyfrannodd fwyaf at y tanddefnydd o swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno.

## Cafodd Llywodraeth Cymru hi'n arbennig o anodd dod o hyd i swyddi i'w hadleoli i Gyffordd Llandudno, ac roedd nifer sylweddol o'r swyddi a adleoliwyd yn wag

**2.40** Profodd Llywodraeth Cymru anhawster arbennig yn clustnodi swyddi i'w hadleoli i Gyffordd Llandudno. Ym mis Tachwedd 2009, nododd adroddiad i Fwrdd y Rhaglen[31] fod 103 o'r 518 swydd y trefnwyd i'w hadleoli yn wag. Ystyriai Bwrdd y Rhaglen fod hon yn bryder enfawr a bod y sefyllfa bellach yn ddifrifol iawn.[32] Cyflwynodd Bwrdd y Rhaglen broses reoli newid ar gyfer Aberystwyth a Chyffordd Llandudno er mwyn iddynt reoli nifer y swyddi a oedd yn adleoli yn well a chyfyngu ar newidiadau dilynol. Fodd bynnag, dywedodd rheolwyr prosiect y Strategaeth Leoli wrthym nad oedd adrannau'n cymhwyso'r broses reoli newid yn gyson a bod nifer y swyddi i'w hadleoli yn parhau i newid.

**2.41** Agorodd swyddfa Cyffordd Llandudno ym mis Medi 2010 gyda 392 o'r swyddi a leolwyd yno wedi'u llenwi, a 52 o swyddi gwag pellach wedi'u hadleoli o Gaerdydd lle'r oedd deiliad y swydd wedi dewis peidio ag adleoli. Ar y pryd, cydnabu Llywodraeth Cymru ei bod hi'n annhebygol o lenwi llawer o'r swyddi gwag hyn na chynyddu nifer y staff a oedd yn adleoli i Ogledd Cymru.

**2.42** Er mwyn defnyddio'r ystâd yn fwy effeithlon a gwneud iawn am brinder y swyddi a adleolai i Gyffordd Llandudno, ym mis Awst 2010 sefydlodd Llywodraeth Cymru brosiect Cam Dau Cyffordd Llandudno. Nod y prosiect oedd cau pum swyddfa arall[33] yng Ngogledd Cymru ac adleoli'r staff a'r swyddi i swyddfa newydd Cyffordd Llandudno. Adeg cwblhau prosiect Cam Dau ym mis Ebrill 2011, roedd 44 o swyddi ychwanegol wedi trosglwyddo i'r swyddfa newydd yng Nghyffordd Llandudno.

**2.43** Roedd cyfanswm cost pecynnau adleoli a dalwyd gan Lywodraeth Cymru yn £2.9 miliwn, bron 10 y cant o gyfanswm costau prosiect swyddfa Merthyr Tudful. Mewn cymhariaeth, gwariodd Llywodraeth Cymru lai na phump y cant o gostau'r prosiect ar becynnau adleoli ar gyfer Cyffordd Llandudno a dim ond dau y cant o'r costau prosiect ar brosiect Aberystwyth (Ffigur 11). Y prif reswm dros gostau uwch pecynnau adleoli Merthyr Tudful yw costau teithio ychwanegol. Y rheswm am hyn oedd bod mwy o bobl wedi adleoli i Ferthyr Tudful nag i Aberystwyth a Chyffordd Llandudno.

31 *Cyfarwyddyd ar gyfer Prif Berchennog Cyfrifol y Rhaglen ar niferoedd swyddi Cyffordd Llandudno*, Tachwedd 2009.

32 Bwrdd Rhaglen y Strategaeth Leoli, 20 Tachwedd 2009.

33 Llys Britannia, Parc Menai, Bangor; Llys y Bont, Parc Menai, Bangor; Uned 21, Llanelwy; Tŷ Broncoed, yr Wyddgrug; ac Uned 19, Parc Busnes yr Wyddgrug.

## Ffigur 11 – Costau digolledu Rhaglen y Strategaeth Leoli

| Pecyn | Merthyr Tudful | Aberystwyth | Cyffordd Llandudno |
|---|---|---|---|
| Costau teithio ychwanegol | 2,055,508 | 127,050 | 339,123 |
| Lwfans amhariad | 517,500 | 170,197 | 672,880 |
| Costau adleoli | 276,429 | 290,135 | 436,888 |
| Benthyciad beic modur/car | 111,164 | - | - |
| **Cyfanswm** | **2,960,601** | **587,382** | **1,448,891** |
| **Canran o gyfanswm cost y prosiect** | **10** | **2** | **5** |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

### Daeth Llywodraeth Cymru i gytundeb â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i wneud defnydd o ofod yng Nghyffordd Llandudno

**2.44** Ym mis Rhagfyr 2013, roedd 392 yn gweithio yn swyddfa Aberystwyth, lefel defnydd o 70 y cant. Ym mis Rhagfyr 2013, roedd y defnyddwyr yn cynnwys staff Cyfoeth Naturiol Cymru, Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a oedd â 100 o staff yn gweithio o'r swyddfa.

**2.45** Ym mis Rhagfyr 2013, roedd 571 o staff yn swyddfa Cyffordd Llandudno, lefel defnydd o dros 88 y cant. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym mai diswyddo gwirfoddol oedd y prif reswm dros y tanddefnydd o swyddfa Cyffordd Llandudno.

**2.46** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn edrych am denant i ddefnyddio rhan o swyddfa Cyffordd Llandudno ers 2006, pan sylweddolodd gyntaf y byddai capasiti dros ben yn y swyddfa. Fodd bynnag, roedd gofynion diogelwch yn cyfyngu'r opsiynau i denantiaid y sector cyhoeddus yn unig, ac roedd manyleb fanwl yr adeilad a'r angen i denant gael systemau gwybodaeth a chyfathrebu ar wahân yn golygu bod costau lesio a chostau eraill yn gymharol uchel.

**2.47** Ers 2006, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ynglŷn â dod o hyd i adeilad swyddfa addas ar gyfer gweithgareddau'r Cwmni yng Nghymru. Methodd y trafodaethau yn 2010 oherwydd anghytundeb ynglŷn â rhannu gofod swyddfa, ond maent wedi ailgychwyn ers hynny a chytunodd Llywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar brydles 10 mlynedd o 24 Mehefin 2013 gydag opsiwn i dorri'r cytundeb ar ôl pum mlynedd. Bydd presenoldeb y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn codi lefelau defnydd swyddfa Cyffordd Llandudno i gapasiti llawn. Am fod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cael ei ariannu'n llawn ar gyfer swyddogaethau a ddarperir ar ran Llywodraeth Cymru, fel rhan o brosiect Cyllid Myfyrwyr Cymru, mae'r Cwmni'n defnyddio'r adeilad heb dalu rhent.



# Part 3 – Er bod llai o weithwyr nag a fwriadwyd wedi adleoli ac er nad yw Llywodraeth Cymru bellach yn monitro'r holl fanteision, mae Rhaglen y Strategaeth Leoli wedi sicrhau amryw o fanteision

## Mae'r Rhaglen wedi cynyddu canran y staff sy'n gweithio y tu allan i Gaerdydd, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi adleoli cymaint o weithwyr ag a fwriadwyd

**3.1** Nod cyffredinol y Rhaglen oedd adleoli swyddi Llywodraeth Cymru ar ystod o raddau o Gaerdydd i rannau eraill o Gymru. Fodd bynnag, mae nifer targed y swyddi i'w hadleoli wedi newid dros oes y Rhaglen (Ffigur 12).

**3.2** Nes 2009, cyfeiriai fersiynau dilynol o'r achos busnes at darged yn nhermau nifer y swyddi i'w hadleoli o Gaerdydd. Fodd bynnag, yn ei Chynllun Gwireddu Manteision yn 2011, mynegodd Llywodraeth Cymru y targed fel cynyddu canran y swyddi a leolir y tu allan i Gaerdydd i 60 y cant erbyn 2012 yn erbyn llinell sylfaen o 23 y cant yn 2002.[34] Adroddodd Llywodraeth Cymru ar ei pherfformiad yn erbyn y targed hwn ddiwethaf ym mis Ebrill 2012, gyda 53 y cant o swyddi ar y pryd wedi'u lleoli y tu allan i Gaerdydd[35].

**Ffigur 12 – Nifer targed y swyddi i'w hadleoli o Gaerdydd**

| Ffynhonnell | Nifer targed y swyddi i'w hadleoli |
|---|---|
| Adroddiad y Strategaeth Adleoli (2002) | 400 |
| Gweledigaeth a Glasbrint (2004) | 600 |
| Achosion Busnes Strategol ac Amlinellol (amryw o fersiynau rhwng mis Mai 2004 a mis Gorffennaf 2006) | 700 |
| Arfarniad Ariannol (Chwefror 2006) | 700 |
| Achos Busnes Llawn (Mawrth 2008) | 800 |
| Achos Busnes Llawn (Ebrill 2009) | Ni osodwyd targed |
| Cynllun Gwireddu Manteision (2011) | Newidiodd y targed i gynyddu canran y swyddi a leolir y tu allan i Gaerdydd (23 y cant yn 2002 i 60 y cant yn 2012) |


*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

34 *Cynllun Gwireddu Manteision y Strategaeth Leoli*, Llywodraeth Cymru, Awst 2011.
35 *Y Strategaeth Leoli – Manteision a Wireddwyd*, Llywodraeth Cymru, Ebrill 2012.

**3.3** Gwelodd ein dadansoddiad fod Llywodraeth Cymru, ers mis Ebrill 2012, wedi adleoli 553 o swyddi o Gaerdydd i'r tair swyddfa newydd (Ffigur 13). Rhagorai hyn ar y targed gwreiddiol o 400 swydd a osodwyd yn adroddiad y *Strategaeth Adleoli*, ond mae gryn dipyn yn is na'r targed o 800 a nodwyd yn yr Achos Busnes Llawn (Mawrth 2008).

**3.4** Dengys dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer cost rhedeg ei swyddfeydd fesul gweithiwr amser llawn yn 2011-12 effaith capasiti dros ben yn swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Pan oedd cyfraddau defnydd yn isel, roedd costau uned (fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn) swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ystâd Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd (Ffigur 14).


**Figur 13 – Swyddi a adleoliwyd o Gaerdydd i dair swyddfa newydd Llywodraeth Cymru**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata adleoli Llywodraeth Cymru*



**Ffigur 14 – Cost-effeithlonrwydd adeiladau newydd ac ar draws ystâd Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd**




*Ffynhonnell: Adroddiad Cyflwr yr Ystad 2012-13, Llywodraeth Cymru.*

# Ni ddatblygodd Llywodraeth Cymru drefniadau cadarn i wireddu manteision y Rhaglen nes 2009, ac nid yw bellach yn monitro'r broses o wireddu'r holl fanteision sy'n parhau

## Ni roddodd Llywodraeth Cymru drefniadau cadarn ar waith i wireddu manteision yn ystod chwe blynedd gyntaf y Rhaglen, ond cryfhaodd ei threfniadau yn dilyn adolygiad Gateway yn 2008

**3.5** Nododd Llywodraeth Cymru fanteision posibl y Strategaeth Leoli mewn nifer o ddogfennau'n ymwneud â'r Rhaglen. Rhestrai Gweledigaeth a Glasbrint Rhaglen y Strategaeth Leoli 2004 12 o fanteision a ragwelid o dan bedair thema strategol: cydraddoldeb, cynhwysiant cymdeithasol, datblygu cynaliadwy ac adfywio economaidd. Rhestrodd Achos Busnes Strategol 2004 28 o fanteision unigol, o dan yr un themâu a thema ychwanegol amrywiaeth. Rhestrodd Cynllun Gwireddu Manteision 2011 21 o fanteision o dan bedair thema ychydig yn wahanol: datblygu cynaliadwy, adfywio economaidd, ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth, ac amgylchedd gwaith gwell (mae Atodiad 5 yn dangos y manteision a ragwelwyd fel y'u rhestrir yn y Cynllun Gwireddu Manteision).

**3.6** Gwelsom fod rhai o'r manteision a restrwyd yn y gwahanol ddogfennau yn wahanol iawn i'w gilydd. Er enghraifft,. Mae'r Weledigaeth a'r Glasbrint yn nodi gwella cyfleoedd gwaith i'r cyhoedd fel mantais bosibl, ond dim ond cyfeirio at adleoli swyddi y mae'r Achos Busnes Strategol.

**3.7** Yn ystod chwe blynedd gyntaf y Rhaglen, nid oedd gan Lywodraeth Cymru ddull o reoli'r broses o wireddu manteision. Mae canllawiau arfer da[36] yn datgan y dylai rheoli manteision fod yn un o weithgareddau craidd y rhaglen a gyflawnir drwy gyfrwng strategaeth wireddu manteision. Dylai'r strategaeth gynnwys proffiliau manteision,[37] map manteision i ddangos sut y mae manteision yn cydweddu â'i gilydd, cynllun gwireddu manteision, adolygiadau o'r manteision a rheolwr gwireddu manteision. Nid oedd yr un o'r elfennau hyn yn eu lle cyn 2008.

**3.8** Ni sefydlodd Llywodraeth Cymru ddata llinell sylfaen ar ddechrau'r Rhaglen i allu asesu cyflawniad y manteision yn ei erbyn. Wrth ddysgu'r gwersi o'r Rhaglen yn 2011, er iddi nodi manteision a ragwelid ar ddechrau'r Rhaglen, nododd Llywodraeth Cymru nad oedd neb â pherchnogaeth ar y gwaith o ffurfio'r data llinell sylfaen[38]. Hefyd, byddai rhai o'r manteision disgwyliedig a nodwyd, er enghraifft helpu i chwalu'r rhaniad rhwng y gogledd a'r de, neu sicrhau mwy o bresenoldeb yn y gymuned, wedi bod yn anodd eu mesur.

**3.9** Nododd Adolygiad Gateway 0 yn 2008 y diffyg perchnogaeth ar broses reoli manteision y Rhaglen. Ar ddiwedd 2008, aeth Bwrdd y Rhaglen ati i asesu pa un a oedd y manteision a nodwyd yn flaenorol yn dal yn berthnasol. Arweiniodd yr asesiad at ddatblygu'r *Cynllun Gwireddu Manteision* (gweler dyfyniadau ohono yn Atodiad 5). Cynhwysodd Llywodraeth Cymru y manteision a restrwyd yn y Cynllun Gwireddu Manteision yn fersiwn derfynol yr achos busnes yn 2009 a gweithredodd y Cynllun yn ystod camau olaf y rhaglen. Fodd bynnag, erbyn hynny, roedd swyddfa Merthyr Tudful yn cael ei defnyddio'n llawn, swyddfa Aberystwyth yn barod i agor

---

36 Arweiniad arfer da ar gyfer Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus.

37 Disgrifiad llawn o fantais yw'r proffil mantais ac mae'n cynnwys manylion ar ddulliau o fesur, perchnogaeth, cyfrifoldebau, dibyniaethau ac amseru.

38 *Rhaglen y Strategaeth Leoli, Gwersi a Ddysgwyd o'r Rhaglen*, Llywodraeth Cymru, 2011.



dri mis yn ddiweddarach a swyddfa Cyffordd Llandudno bum mis i mewn i'r cam adeiladu.

**3.10** Argymhellodd Adolygiad Gateway 0 y dylai trefniadau rheoli manteision barhau am gyfnod rhesymol y tu hwnt i feddiannu'r adeilad, er mwyn sicrhau bod arferion gwaith newydd yn gwreiddio a'r manteision llawn yn cael eu gwireddu. Wrth gwblhau pob adeilad, ysgwyddodd Pwyllgor Tŷ[39] a Phrif Berchennog Cyfrifol gyfrifoldeb dros reoli'r manteision ym mhob swyddfa.

### Nid yw Llywodraeth Cymru yn monitro'r broses o wireddu'r holl fanteision mwyach

**3.11** Ar derfyn y Rhaglen ym mis Gorffennaf 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Gateway 5[40] i asesu cyflawniad y manteision disgwyliedig.[41] Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod y Rhaglen wedi dod i ben cyn pryd ac efallai na fyddai'n ennyn cydnabyddiaeth i rai o'r manteision a oedd yn dod yn amlwg ar y pryd ac yn y dyfodol, nac at rai manteision ychwanegol nas rhagwelwyd. Nododd yr adolygiad yr angen i'r Rhaglen nodi, olrhain a hawlio manteision nas rhagwelwyd.

**3.12** Mewn ymateb i Adolygiad Gateway 5, adolygodd Llywodraeth Cymru y manteision ym mis Ebrill 2012[42]. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod yr adolygiad o'r manteision cyflawni'r argymhelliad yn Adolygiad Gateway 5 y dylid cynllunio'r broses o reoli manteision am gyfnod rhesymol y tu hwnt i feddiannu'r adeilad. Fodd bynnag, nid oedd yr adolygiad o'r manteision yn adrodd ar berfformiad yn erbyn pob un o fanteision y Rhaglen ac nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad canolog pellach o fanteision y Rhaglen. Er bod Llywodraeth Cymru wedi aseinio cyfrifoldeb i Bwyllgorau'r Tŷ dros reoli manteision ac adrodd i'r rhanddeiliaid ar gynnydd y broses o wireddu manteision, ychydig o dystiolaeth a geir fod hyn wedi digwydd. Yn lle hynny, ymdrin yn unig â materion o ddydd i ddydd sy'n ymwneud â'r swyddfeydd newydd  a wnaeth Pwyllgorau'r Tŷ a'r Prif Berchnogion Cyfrifol.

## Mae Rhaglen y Strategaeth Leoli wedi sicrhau amryw o fanteision

### Mae swyddfeydd newydd Llywodraeth Cymru yn debygol o fod wedi cael effaith gadarnhaol ar economïau lleol

**3.13** Un o'r prif fanteision a ragwelodd Llywodraeth Cymru o'r Strategaeth Leoli oedd effaith gadarnhaol ar economïau lleol yr ardaloedd lle lleolwyd y swyddfeydd newydd. Fodd bynnag, ac eithrio mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cynghorau lleol perthnasol Merthyr Tudful, Ceredigion a Chonwy yn y broses o bennu maint manteision economaidd posibl y Strategaeth Leoli.

**3.14** Cyfeiriwyd at y manteision economaidd disgwyliedig mewn pedair o'r manteision sydd wedi'u cynnwys yn y *Cynllun Gwireddu Manteision*, sef cynyddu:

- **a** cyfleoedd gwaith newydd yn y cymunedau lleol;
- **b** cyfoeth lleol ac incwm gwario drwy gyflwyno swyddi [Llywodraeth Cymru] wedi'u hadleoli;
- **c** nifer y cyfleoedd gwaith lleol yn ystod y gwaith adeiladu (Astudiaeth Achos 1); ac
- **ch** ailddosbarthu cyfoeth o Gaerdydd i ardaloedd Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd.

---

39 Pwyllgor gweithredol yw Pwyllgor Tŷ sy'n meddu ar bwerau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â llywodraethu'r swyddfa'n strategol a chorfforaethol o ran y modd y mae'n effeithio ar staff ac ymwelwyr. Bydd aelod o dîm Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn cadeirio pob Pwyllgor.

40 Dylai'r Adolygiad hwn gadarnhau bod y prosiect yn cyflawni'r manteision dymunol, a bod y newidiadau gwaith yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth. Mae arfer da'n awgrymu y dylid ailadrodd Adolygiad Gateway 5 ar gamau rheolaidd dros oes y gwasanaeth/cyfleuster newydd.

41 Adolygiad Proses Gateway™ 5 Swyddfa Masnach y Llywodraeth: Operations review & benefits realisation, 21 Gorffennaf 2011.

42 *Rhaglen y Strategaeth Leoli – Manteision a Wlreddwyd,* Llywodraeth Cymru, Ebrill 2012.

**Astudiaeth Achos 1 – Manteision lleol yn ystod y gwaith o adeiladu swyddfa Cyffordd Llandudno**

Yn rhannol oherwydd y berthynas waith dda rhwng tîm prosiect Cyffordd Llandudno a'r contractwr, Pochin Construction, roedd £8.75 miliwn (42 y cant) o wariant y contractwr adeiladu ar lafur a chyflenwadau lleol. Hefyd, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad 'cyfarfod â'r prynwr' i ddyfarnu pum contract gwerth £400,000 i fusnesau lleol.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

**3.15** Ym mis Tachwedd 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru asesiad annibynnol o effaith economaidd y Rhaglen gan Brifysgol Bangor[43]. Nod yr adolygiad oedd cynnal asesiad o werth ac effaith er mwyn pennu priodoldeb, effeithiolrwydd ac effaith net amcangyfrifedig gweithgareddau, yn unol â chanllawiau arfer da'r Trysorlys a Swyddfa'r Cabinet. Mesurodd yr adolygiad gyfraniad y Rhaglen gyfan i ranbarthau wedi'u diffinio'n eglur. Mae asesiad o'r fath yn gwerthuso mwy na gwariant uniongyrchol, gan fod y cyfalaf a roddir i mewn yn gweithredu fel catalydd i wariant pellach drwy'r holl economi. Mae canfyddiadau'r adolygiad yn awgrymu bod y swyddfeydd newydd wedi cael effaith gadarnhaol ar economïau lleol, yn erbyn pob un o'r categorïau mantais economaidd a nodwyd yn y Cynllun Gwireddu Manteision (Ffigur 15).

## Ffigur 15 – Manteision economaidd y strategaeth leoli

| Categori mantais | Merthyr Tudful | Aberystwyth | Cyffordd Llandudno | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Cynnydd yn nifer y cyfleoedd gwaith newydd yn y cymunedau lleol. | 325 swydd ym mlynyddoedd 0-1, disgwylir i hyn godi i 549 erbyn 2015. | 105 swydd ym mlynyddoedd 0-1, disgwylir i hyn godi i 149 erbyn 2015. | 78 swydd ym mlynyddoedd 0-1, disgwylir i hyn godi i 108 erbyn 2015. | Amcangyfrif creu 840 o swyddi newydd a chynnal 330. |
| Mwy o gyfoeth lleol drwy gyflwyno swyddi wedi'u hadleoli – effaith 'gwelliant' incwm gwario; a chynyddu ailddosbarthiad cyfoeth o Gaerdydd i ardaloedd Amcan Un. | Amcangyfrif y bydd cyfanswm y gwerth economaidd i'r rhanbarth dros £100.5 miliwn. | Amcangyfrif y bydd cyfanswm y gwerth economaidd i'r rhanbarth yn £21.5 miliwn. | Amcangyfrif y bydd cyfanswm y gwerth economaidd i'r rhanbarth yn £25 miliwn. | Hyd at £250 miliwn erbyn 2015; (yn cynnwys cynyddu gwariant lleol rhwng £60 miliwn a £112 miliwn). |
| Cynyddu nifer y cyfleoedd gwaith yn yr ardal leol yn ystod y camau adeiladu (1). | Creu 106 o swyddi a chynnal pump. | Creu un swydd a chynnal chwech. | Creu 19 o swyddi a chynnal wyth. | Ddim yn berthnasol |

Noder:

1 Caiff swyddi naill ai eu 'creu' o ganlyniad uniongyrchol i'r Rhaglen neu cânt eu 'cynnal', yn yr ystyr nad ydynt yn bodoli o achos y rhaglen, ond cânt eu cynnal ganddi, er enghraifft cadw swyddi presennol mewn tai bwyta, gwestai a chyflenwyr nwyddau adeiladu. Mae'r swyddi a grëwyd yn cynnwys swyddi Llywodraeth Cymru a rhai heb fod yn swyddi Llywodraeth Cymru.

*Ffynhonnell: Prifysgol Bangor*

43 *Rhaglen Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru, Arfarniad Economaidd – Crynodeb o Ganfyddiadau,* Prifysgol Bangor, Tachwedd 2011.



3.16 Deillia rhan fawr o'r fantais economaidd ddisgwyliedig sy'n codi o'r Strategaeth Leoli o'r incwm gwario ychwanegol a gynhyrchir gan y cynnydd yn nifer y swyddi Llywodraeth Cymru yn ardaloedd y swyddfeydd newydd. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhagdybied y byddai 830 o swyddi yn trosglwyddo o Gaerdydd i ardaloedd eraill o Gymru, gyda'r rhan fwyaf o'r incwm gwario sy'n gysylltiedig â'r swyddi hyn yn cael ei wario'n lleol. Amcangyfrifodd Prifysgol Bangor mai cynnydd yn y gwariant lleol fyddai rhwng £60 miliwn a £112 miliwn o'r £250 miliwn o fanteision mesuradwy.

3.17 Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhagdybied yn ei Hachos Busnes Strategol yn 2004 y byddai'r swyddfa newydd ym Merthyr Tudful yn ysgogi buddsoddi manwerthol lleol ar ran y sector preifat, gan gynhyrchu £12.6 miliwn pellach o incwm gwario o'r swyddi a grëwyd. Fodd bynnag, roedd Prifysgol Bangor o'r farn nad oedd tystiolaeth gredadwy fod y swyddfa newydd ym Merthyr Tudful wedi arwain at fuddsoddi newydd arall yn y dref.

3.18 Er hynny, asesodd Prifysgol Bangor fod effaith gyffredinol Rhaglen y Strategaeth Leoli ledled Cymru yn £250 miliwn ar gyfer y cyfnod rhwng dechrau adeiladu a 2015[44]. Mae'r amcangyfrif hwn yn llawer mwy na'r £73 miliwn o fanteision adfywio economaidd a gynhwysodd Llywodraeth Cymru yn yr Achos Busnes Strategol a gymeradwywyd ym mis Mai 2004. Wrth ystyried cost adeiladu'r tair swyddfa newydd a chostau cysylltiedig adleoli staff, mae adroddiad Prifysgol Bangor yn awgrymu bod mantais economaidd net y Rhaglen tua £158.5 miliwn. Hefyd, darparodd y Rhaglen fanteision eraill heb werth ariannol, megis gwella amlygrwydd Llywodraeth Cymru yn y gymuned leol a chynyddu ei hymrwymiad i Ddatblygu Cynaliadwy.

3.19 Ni ystyriodd arfarniadau ariannol Llywodraeth Cymru na gwerthusiad Prifysgol Bangor effaith negyddol bosibl y Rhaglen a throsglwyddo swyddi i rannau eraill o Gymru ar Gaerdydd neu ardaloedd eraill lle caewyd swyddfeydd. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym nad oeddynt yn cynnwys effeithiau o'r fath oherwydd eu bod o'r farn fod Caerdydd yn 'ardal cyflogaeth lawn' ac mai un o brif ddibenion y Rhaglen oedd ailddosbarthu cyfoeth i ffwrdd o Gaerdydd, Er hynny, ystyriwn ei bod hi'n bwysig cydnabod y gallai lleihau gweithgaredd economaidd yng Nghaerdydd a mannau eraill yng Nghymru wrthbwyso peth o'r fantais ariannol a ddynodwyd gan yr arfarniadau buddsoddi a gwerthuso dilynol.

## Mae prosiect Rheoli Cyfleusterau'r Dyfodol wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol drwy gydgrynhoi dros 100 o gontractau rheoli cyfleusterau mewn saith contract

3.20 Roedd angen contract rheoli cyfleusterau ar bob un o adeiladau newydd Llywodraeth Cymru er mwyn rheoli gwasanaethau fel gwasanaethau derbyn, glanhau, cynnal a chadw, iechyd a diogelwch, porthorion, ystafell y post a diogelwch tân. Ym mis Ionawr 2008, fel prosiect o fewn y Strategaeth Leoli, manteisiodd Llywodraeth Cymru ar y cyfle i gyflwyno'r angen am gontractau ar gyfer yr adeiladau newydd i resymoli'r 109 o gontractau rheoli cyfleusterau a oedd yn bodoli ar y pryd ledled Cymru. Cydgrynhodd proses gaffael Llywodraeth Cymru y gwaith o reoli cyfleusterau ei hystâd gyfan o fewn saith contract gan greu arbedion effeithlonrwydd sylweddol.

3.21 Yn wreiddiol, ffafriai Llywodraeth Cymru yr opsiwn o greu un contract cenedlaethol, ond cydnabu'n ddiweddarach y gallai hyn greu tensiwn posibl rhwng uchafu cost-effeithiolrwydd a gadael i fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru i gystadlu am

44 Nid oes modd cymharu'r ffigur hwn yn uniongyrchol â'r ffigurau yn yr arfarniad buddsoddi a oedd yn cwmpasu cyfnod hwy o amser ac yn hepgor manteision a godai o'r prosiectau adeiladu ac o gyfleoedd ar gyfer cyflenwyr lleol.

y contract. Felly penderfynodd Llywodraeth Cymru ar saith contract: chwe chontract 'rheoli cyfleusterau meddal' rhanbarthol, a chontract 'rheoli cyfleusterau caled' cenedlaethol[45]. Er bod pob un o'r saith contract yn dal i fod yn rhy fawr i lawer o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru allu cystadlu amdanynt, roedd y manylebau yn gofyn am ddefnyddio busnesau bach a chanolig yng Nghymru fel isgontractwyr lle bo modd. Hyd yn hyn, mae dwy ran o dair o'r is-gontractau â busnesau bach a chanolig o Gymru.

**3.22** Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif fod y prosiect Rheoli Cyfleusterau'r Dyfodol wedi arbed £1 miliwn dros dair blynedd,[46] er na chafwyd dilysiad allanol o'r amcangyfrif hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn honni iddi gyflawni'r arbedion hyn drwy arbedion maint a thrwy weinyddu contractau'n fwy effeithlon. Mae'r manteision ychwanegol a hawlir yn cynnwys safonau gwasanaeth mwy unffurf a manteision cymunedol, er enghraifft drwy'r swyddi lleol a grëwyd drwy is-gontractio busnesau bach a chanolig.

### Er mwyn sicrhau presenoldeb gweladwy, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys ardaloedd mynediad cyhoeddus yn ei swyddfeydd yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno

**3.23** Ceir ardaloedd mynediad cyhoeddus o'r enw 'Y Bont' yn swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Mae'r ardaloedd hyn yn darparu cyfleusterau fel mynediad i'r rhyngrwyd, ardaloedd gwybodaeth, caffis, a lle ar gyfer arddangosiadau. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Bont i hyrwyddo ymgysylltiad â chymunedau lleol a gwella mynediad at swyddogion Llywodraeth Cymru. Cynhwysodd Llywodraeth Cymru y Bont yn ei phrosiectau yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno ar ôl cwblhau swyddfa Merthyr Tudful, ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau ar y gweill ganddi i gyflwyno'r cysyniad yno.

**3.24** Mae'r Cynllun Gwireddu Manteision yn cyfeirio at y Bont yng nghategori mantais cynyddu ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth, ac mae'n nodi bod nifer yr ymweliadau ag ardaloedd mynediad cyhoeddus yn fesur o fantais gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn mesur llwyddiant yn ôl nifer y bobl sy'n ymweld â'r Bont.

**3.25** Ni osododd Llywodraeth Cymru unrhyw dargedau ar gyfer nifer ymwelwyr â'r Bont na nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd yng nghyfleusterau'r Bont yn Aberystwyth na Chyffordd Llandudno. Nododd yr adolygiad o'r manteision terfynol ym mis Ebrill 2012 fod mwy na 250 o ddigwyddiadau wedi'u cynnal yn y ddau gyfleuster. Er nad oedd yr adolygiad yn cynnwys unrhyw ddata ar nifer yr ymwelwyr, nododd y Cynllun Gwireddu Manteision fod 115,367 o bobl wedi ymweld â swyddfa Aberystwyth hyd at fis Mai 2011, a 43,728 wedi ymweld â swyddfa Cyffordd Llandudno. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod mwyafrif yr ymwelwyr â swyddfa Aberystwyth yn blant ysgol neu'n aelodau o'r gymuned ffermio ag ymholiadau ynglŷn â chynlluniau taliadau gwledig Llywodraeth Cymru.

### Mae staff Llywodraeth Cymru yn fodlon at ei gilydd â'r swyddfeydd newydd, sy'n darparu amgylchedd gwaith modern a hyblyg

**3.26** Un o'r prif gategorïau mantais yn y Cynllun Gwireddu Manteision oedd amgylchedd gwaith gwell i staff, ac roedd yn cynnwys saith mantais unigol (Atodiad 5). Defnyddiodd Llywodraeth Cymru arolygon dilynol o'r staff a adleoliwyd i swyddfeydd newydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno er mwyn mesur i ba raddau y gwireddwyd y manteision.

---

45 Mae contractau rheoli cyfleusterau meddal yn ymwneud â glanhau, rheoli plâu, diogelwch, tirlunio, rheoli gwastraff, diogelwch, ystafell y post, ac iechyd a diogelwch. Mae contractau rheoli cyfleusterau caled yn ymwneud yn bennaf â gwaith cynnal a chadw ffisegol ar yr adeilad a chyfarpar.

46 *Cyflwr yr Ystad 2011-12*, Llywodraeth Cymru.




**3.27** Ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru arolygon tebyg o aelodau staff a symudodd i swyddfa newydd Merthyr Tudful yn 2006, ac ni sefydlwyd llinell sylfaen ar gyfer bodlonrwydd staff cyn eu hadleoli yno. Fodd bynnag, nododd y Cynllun Gwireddu Manteision fod 89 y cant o staff Merthyr Tudful yn fodlon â'u hamgylchedd gwaith yn erbyn mantais ddisgwyliedig gwella amgylchedd gwaith i staff, o gymharu â 59 y cant o'r staff yng Nghaerdydd.

**3.28** Mae'r arolwg o'r staff a adleoliwyd i swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno yn dangos bod bodlonrwydd staff at ei gilydd â'i hamgylchedd gwaith wedi gwella ers trosglwyddo i'r swyddfeydd newydd (Ffigur 16). Fodd bynnag, roedd bodlonrwydd ag amgylchedd gwaith yng Nghyffordd Llandudno wedi gostwng 10 y cant ar ôl i staff symud i mewn i'r swyddfa newydd. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym mai'r rheswm mwyaf tebygol am hyn oedd cynnydd yn y pellter teithio i'r gwaith, gwrthwynebiad cyffredinol rhai aelodau staff i symud lleoliad y swyddfa, ac nid oedd rhai o'r staff yn hoff o'r amgylchedd gwaith cynllun agored.

**Ffigur 16 – Bodlonrwydd staff â swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno**

Aberystwyth





Noder:

Ni fesurwyd anghenion storio cyn adleoli

*Ffynhonnell: Arolwg Llywodraeth Cymru o staff a symudwyd i swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno.*

## Cyffordd Llandudno




Noder:

Ni fesurwyd anghenion storio cyn adleoli

*Ffynhonnell: Arolwg Llywodraeth Cymru o staff a symudwyd i swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno.*



## Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni amcanion cynaliadwyedd y Rhaglen

3.29 Nododd pob fersiwn o'r Achos Busnes gynaliadwyedd fel un o Ffactorau Llwyddiant y Strategaeth Leoli. Yng nghyd-destun y Rhaglen, roedd datblygu cynaliadwy yn cyfeirio'n bennaf at ad-drefnu'r ystâd, cymwysterau amgylcheddol yr adeiladau newydd a 'theithio gwyrdd'.

3.30 Mae Llywodraeth Cymru wedi adrodd ar ad-drefnu'r ystâd a pherfformiad amgylcheddol y swyddfeydd newydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwella opsiynau teithio gwyrdd o Gaerdydd i Ferthyr Tudful ac wedi gosod cynlluniau teithio gwyrdd ar waith yn ei swyddfeydd yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno, ond nid yw wedi gwerthuso effaith y cynlluniau hyn hyd yma.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau maint ei hystâd, ac mae cynlluniau ar y gweill i ad-drefnu ymhellach o dan brosiect Strategaeth Leoli 2

3.31 Yn 2002, argymhellodd yr adroddiad ar y Strategaeth Adleoli y dylid cadw'r swyddfeydd presennol. Fodd bynnag, newidiodd digwyddiadau dilynol, yn cynnwys lleihau maint Llywodraeth Cymru yn hytrach na'i thwf disgwyliedig, rai o nodau'r Rhaglen. Ar ôl hynny, nododd pob fersiwn o'r Achos Busnes fod Llywodraeth Cymru yn anelu i dorri traean oddi ar faint ei hystâd, o'r 97 eiddo a oedd ganddi ar ddechrau'r Rhaglen. Byddai hyn nid yn unig yn arbed arian ar eiddo aneffeithiol, wedi'i danddefnyddio, ond hefyd byddai'n lleihau ôl troed carbon Llywodraeth Cymru.

3.32 Erbyn i'r Rhaglen ddod i ben, roedd Llywodraeth Cymru wedi lleihau maint ei hystâd bron 60 y cant, i 41 eiddo. Roedd hyn yn cynnwys cau pum swyddfa yng Ngogledd Cymru yn rhan o brosiect Cam Dau Cyffordd Llandudno er mwyn mynd i'r afael â'r prinder swyddi a adleoliwyd i swyddfa Cyffordd Llandudno (Astudiaeth Achos 2). Trwy adael swyddfeydd wrth i brydles ddod i ben neu ar bwyntiau terfynu mewn cytundebau lesio, roedd proses resymoli ystad Llywodraeth Cymru yn niwtral o ran cost.

**Astudiaeth Achos 2 – Prosiect Cam Dau**

Gydag adeiladu swyddfa newydd Cyffordd Llandudno a gwblhawyd yn 2010 a'r broses o symud staff bellach ar y gweill, ac wedi cyfnod o ymgynghori, ym mis Awst 2010 penderfynodd Bwrdd y Rhaglen gau pum swyddfa arall yn y Gogledd ac adleoli staff a swyddi i swyddfa newydd Cyffordd Llandudno. O'r pum swyddfa oedd i'w cau, roedd dwy ym Mangor, dwy yn yr Wyddgrug ac un yn Llanelwy.

Llenwodd yr adleoli beth o'r lle gwag yn swyddfa Cyffordd Llandudno, cynigai amgylchedd gwaith gwell i staff a sicrhaodd arbedion amcangyfrifedig o dros £400,000 y flwyddyn.

Roedd y prosiect yn weithredol rhwng mis Awst 2010 a mis Ebrill 2011, gyda 44 aelod o staff yn adleoli. Cyflawnodd Llywodraeth Cymru brosiect Cam Dau o fewn yr amserlen a'r gyllideb, a gwnaeth ddefnydd o gymalau terfynu yn y pum eiddo i sicrhau nad oedd costau ychwanegol yn codi wrth eu gadael.

3.33 Bellach, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith rhesymoli pellach ar ei hystâd drwy Strategaeth Leoli 2 (Blwch 4), gyda'r nod o leihau maint yr ystâd eto i 13 eiddo craidd erbyn mis Ebrill 2015, er mwyn arbed £18 miliwn. Er bod peth rhesymoli wedi digwydd yn ystod cyfnod y Strategaeth Leoli (gyntaf), roedd yn ymwneud yn bennaf â chau swyddfeydd ac adleoli staff i'r tri adeilad newydd.

**Blwch 4 – Strategaeth Leoli 2**

Nod Strategaeth Leoli 2 (2010-2015) yw cadarnhau cyfres o egwyddorion i greu fframwaith ar gyfer rheoli ystâd weinyddol Llywodraeth Cymru yn gynaliadwy, gan wneud y defnydd gorau o'r buddsoddiad yn ei swyddfeydd newydd. Nodau trosfwaol Strategaeth Leoli 2 yw cynnal swyddi a swyddfeydd Llywodraeth Cymru mewn lleoliadau allweddol i gefnogi economïau lleol, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a sicrhau lleihad o 30 y cant yn erbyn costau defnydd cyfredol.

Ym mis Gorffennaf 2010, cytunodd Cabinet Llywodraeth Cymru ar gyfres o egwyddorion allweddol sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer symud y strategaeth yn ei blaen:

- caiff ystâd weinyddol Llywodraeth Cymru ei rheoli ar sail ranbarthol (ar draws pump o ardaloedd daearyddol: Caerdydd; De-ddwyrain Cymru; De-orllewin Cymru; Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru);
- ystyrir terfynu prydlesau wrth nesu at ddyddiadau dod i ben a gwneir defnydd o opsiynau terfynu prydles yn ôl yr hyn a ystyrir yn briodol;
- caiff arferion gweithio hyblyg eu mabwysiadu ar draws yr ystâd; a
- gwneir y defnydd gorau o adeiladau swyddfa a gedwir, yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer cydleoli â sefydliadau sector cyhoeddus eraill.

Mae'r sefyllfa bresennol yn deillio o leihad sylweddol yn niferoedd staff Llywodraeth Cymru yn sgîl y cynllun ymadael gwirfoddol. Mae'r gostyngiad yn niferoedd y staff wedi arwain at gryn dipyn o gapasiti dros ben a'r dangosyddion perfformiad gwael a welwyd o ran effeithlonrwydd swyddfa.

Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd yr arbedion a ryddheir o renti is a gwerthu eiddo gwag yn fwy na gwneud iawn am gost gweithredu prosiect Strategaeth Leoli 2. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif fod potensial gan Strategaeth Leoli 2 i gynhyrchu arbedion blynyddol cronnus o dros £5.3 miliwn ar gostau rhedeg adeiladau o 2015 ymlaen.

3.34 Yn 2010, sefydlodd Llywodraeth Cymru brosiect i adolygu adeilad swyddfa Merthyr Tudful a gwella effeithlonrwydd drwy arferion gweithio mwy hyblyg a gwell defnydd o ofod. Yn ganolog i'r prosiect, roedd darpariaeth o wyth desg i bob 10 gweithiwr yn y swyddfa, am mai anaml y bydd y defnydd yn agos at gapasiti llawn ac roedd Llywodraeth Cymru eisiau creu gofod ychwanegol ar gyfer mannau cyfarfod, ceginau a storfeydd. Roedd y prosiect yn ei gwneud hi'n bosibl defnyddio gofod yn fwy effeithlon yn swyddfa Merthyr Tudful ac yn creu capasiti i adleoli 137 o swyddi ychwanegol o swyddfeydd a gaewyd yn Nantgarw, Pont-y-pŵl, Tremorfa a Chwm Cynon. Wedi'r adolygiad o swyddfa Merthyr Tudful, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau cynnal adolygiadau tebyg o'i swyddfeydd yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno.

## Mae pob un o'r swyddfeydd newydd wedi ennill gradd 'ragorol' BREEAM am eu perfformiad amgylcheddol

3.35 Roedd Llywodraeth Cymru yn mynnu y dylai'r adeiladau newydd geisio cyrraedd safon 'ragorol' Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) (Blwch 5). Nodai pob fersiwn o'r achos busnes y dylai'r adeiladau fod mor 'wyrdd', effeithlon a gweithredol â phosibl, ond dylai eu dyluniad hefyd fod o'r safon uchaf i adlewyrchu rôl a statws y Cynulliad. Dylai'r adeiladau fod â photensial i gael eu henwebu am wobrau cenedlaethol am ddylunio adeiladau.



## Blwch 5 – BREEAM

Mae'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) yn hyrwyddo rhagoriaeth ac arloesedd yn yr amgylchedd adeiledig, ac yn gweithredu'r Dull Asesu Amgylcheddol (BREEAM). Mae'r BRE yn graddio ac yn ardystio adeiladau gan amrywio o radd 'pasio' i radd 'ragorol' yn ôl eu cymwysterau amgylcheddol. Fel adeiladau nodedig nad ydynt yn perthyn i gategori adeiladu cyffredin, asesodd BRE fod swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno yn adeiladau arbennig gyda meini prawf asesu BREEAM wedi'u teilwra'n benodol i'r math o adeilad.

**3.36** Mae'r tri adeilad newydd wedi ennill gradd 'ragorol' BREEAM am eu perfformiad amgylcheddol posibl. Ar y lefelau defnydd a dargedwyd, adeilad Cyffordd Llandudno sy'n arddangos y perfformiad amgylcheddol gorau o holl adeiladau ystâd Llywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau o fentrau arbed ynni yn swyddfa Cyffordd Llandudno yn cynnwys ailgylchu dŵr glaw, awyru naturiol, boeleri biomas a  mesuryddion ynni clyfar. Hefyd, daeth y prosiect i'r brig yng nghategori Adeiladau Arbennig gwobrau'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu yn 2010. Mae'r gwobrau'n cydnabod ac yn gwobrwyo'r rhai sy'n ymwneud â dylunio ac adeiladu'r adeiladau a ardystiwyd gan BREEAM sy'n sgorio uchaf.

# Atodiad 1 – Methodoleg

## Adolygiad o ddogfennau'r rhaglen

Rydym wedi adolygu ystod eang o ddogfennau a ffeiliau Rhaglen y Strategaeth Leoli. Mae ffeiliau'r Rhaglen yn cynnwys amryw o e-byst, memoranda, cofnodion, data, adolygiadau ac adroddiadau ar bob agwedd o'r Rhaglen a phrosiectau unigol. Ni fu modd dod o hyd i dystiolaeth ddogfennol ar gyfer rhai o gamau cynharaf y Rhaglen. Roedd y dogfennau a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Cofnodion Bwrdd y Rhaglen
- Cofnodion, datganiadau a memoranda Cabinet Llywodraeth Cymru
- Cofnodion Bwrdd Rheoli Llywodraeth Cymru
- Cyngor i Weinidogion ac Uwch Weision Sifil
- Cofnodion Bwrdd Prosiect
- Yr Adroddiad ar y Strategaeth Adleoli
- Gweledigaeth a Glasbrint
- Achos Busnes Strategol, Amlinellol a Llawn
- Adolygiadau Gateway
- Dogfennau rheoli manteision
- Adroddiadau ar y gwersi a ddysgwyd o'r Rhaglen a phrosiectau
- Adroddiadau terfynu Rhaglen, prosiectau a diwedd camau
- Adroddiadau cymharu costau prosiectau adeiladu
- Dogfennau Strategaeth Leoli 2
- Adroddiadau diwedd prosiect
- Adolygiadau Sicrwydd Prosiect
- Llawlyfr Gweithredol ar Gyllid y Strategaeth Leoli
- Strategaethau Rhaglen - cyfathrebiadau; manteision; rheoli parhad busnes; rheoli ansawdd; cynllunio; risg; rheoli rhanddeiliaid; gwersi a ddysgwyd; rheoli problemau
- Dogfennau trefniadau llywodraethu
- Dogfennau, yn cynnwys cyngor cyfreithiol, mewn perthynas ag oedi ac adolygu swyddfa Cyffordd Llandudno
- Adroddiadau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru
- Adroddiadau Cyflwr yr Ystad Llywodraeth Cymru (2008-09, 2009-10, 2010-11, 2011-12 a 2010-13)
- Adolygiad Prifysgol Bangor o Raglen Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru
- Strategaethau a dogfennau rheolaeth newid Rhaglen



## Adolygiad o'r llenyddiaeth

Aethom ati i adolygu gwaith ymchwil a chanllawiau perthnasol o nifer o ffynonellau eraill, yn cynnwys:

- Experian (The Impact of Relocation); Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (The office accommodation of the Department for Culture, Media and Sport and its sponsored bodies); Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (adolygiadau Lyons a Gershon ac amrywiadau yn amodau'r gwasanaeth sifil; Improving the efficiency of central government office property; Getting the best from public sector office accommodation; Improving Public Services through better construction); Bwrdd Safonau Lloegr (Relocation Case Study, Manchester MIDAS); Trysorlys ei Mawrhydi (Y Llyfr Gwyrdd); Adolygiad Lyons; Gweithrediaeth yr Alban (The Relocation Guide); Swyddfa Masnach y Llywodraeth (Adolygiad Gateway a chanllawiau Construction Excellence).

## Cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru

Cynhaliwyd cyfweliadau â staff canlynol Llywodraeth Cymru:

- Prif Berchennog Cyfrifol y Rhaglen
- Rheolwyr y Rhaglen
- Cyfarwyddwr y Rhaglen
- Rheolwyr Prosiect
- Dirprwy Reolwyr Prosiect
- Cyfarwyddwr Anweithredol Bwrdd Rhaglen y Strategaeth Leoli
- Arweinwyr Timau'r Rhaglen ac aelodau cyllid, caffael, rheoli rhaglen, safonau a sicrwydd, cyfathrebu, rheoli manteision
- Cynrychiolwyr Undebau Llafur, adnoddau dynol
- Prif Berchnogion Cyfrifol y swyddfeydd newydd
- Pennaeth Rheoli Cyfleusterau
- Rheolwyr Cyfleusterau
- Pennaeth Ystadau

## Cyfweliadau eraill

Casglwyd gwybodaeth o gyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol eraill, yn cynnwys: contractwyr adeiladu, asiantwyr rheoli prosiectau adeiladu, ymgynghorwyr prosiectau adeiladu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

## Data ac ystadegau

Dadansoddwyd data ac ystadegau ar y canlynol:

- arfarnu opsiynau ac arfarniadau ariannol;
- adleoli swyddi i swyddfeydd newydd; a
- gwariant a chostau'r prosiectau unigol a'r rhaglen gyfan.

# Atodiad 2 – Llinell amser

| | |
|---|---|
| Allwedd | Coch – Rhaglen<br>Gwyrdd – prosiect Merthyr Tudful<br>Glas – prosiect Aberystwyth<br>Oren – prosiect Cyffordd Llandudno |
| **Dyddiad** | **Digwyddiad** |
| Hydref 2001 | Comisiynu adolygiad Llywodraeth Cymru o'r adeiladau swyddfa |
| Mehefin 2002 | Cyhoeddi adroddiad y Strategaeth Adleoli |
| Hydref 2002 | Cadarnhau Rhyd-y-Car ym Merthyr Tudful fel lleoliad ar gyfer swyddfa De Cymru |
| Mawrth 2003 | Dechrau gweithredu'r Strategaeth Leoli |
| Ebrill 2003 | Adolygiad Gateway 0 yn canfod gwendidau sylweddol yn Rhaglen y Strategaeth Leoli |
| Ebrill 2003 | Amcangyfrif cyntaf o gyfanswm cost y Strategaeth Leoli yn £100m |
| Mehefin 2003 | Ail amcangyfrif o gyfanswm cost y Strategaeth Leoli yn £100m |
| Gorffennaf 2003 | Gwneud newidiadau sylweddol i drefniadau llywodraethu ac adnoddau dynol o fewn y Strategaeth Leoli |
| Medi 2003 | Cyhoeddi Adolygiad Sicrwydd Prosiect Merthyr Tudful |
| 2004 | Cyhoeddi Gweledigaeth a Glasbrint ar gyfer y Rhaglen |
| Mawrth 2004 | Cadarnhau Parc y Llyn yn Aberystwyth fel lleoliad ar gyfer swyddfa Canolbarth Cymru |
| Mawrth 2004 | Cyngor Sir Ceredigion yn mynegi diddordeb mewn lleoli wrth ymyl swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharc y Llyn, Aberystwyth |
| Ebrill 2004 | Achos Busnes Strategol yn cadarnhau nodau'r Strategaeth Leoli |
| Mai 2004 | Cadarnhau Cyffordd Llandudno fel lleoliad ar gyfer swyddfa Gogledd Cymru |
| Mai 2004 | Cyhoeddi Achos Busnes Strategol gydag opsiynau adeiladau |
| Mai 2004 | Llywodraeth Cymru yn cytuno ar gontract prynu ar brydles â David McLean Developments ar gyfer swyddfa Merthyr Tudful |
| Awst 2004 | Comisiwn Dylunio Cymru yn adolygu dyluniad gwreiddiol swyddfa Merthyr Tudful |



| | |
|---|---|
| Allwedd | Coch – Rhaglen<br>Gwyrdd – prosiect Merthyr Tudful<br>Glas – prosiect Aberystwyth<br>Oren – prosiect Cyffordd Llandudno |
| **Dyddiad** | **Digwyddiad** |
| Rhagfyr 2004 | Cyhoeddi Fersiwn 0.1 o'r Achos Busnes Amlinellol |
| Rhagfyr 2004 | Trydydd amcangyfrif o gyfanswm cost y Strategaeth Leoli tua £80m |
| Chwefror 2005 | Papur i'r Cabinet ar risgiau, pryderon a manteision symud i Aberystwyth a Chyffordd Llandudno |
| Mai 2005 | Gwaith adeiladu swyddfa Merthyr yn dechrau |
| Gorffennaf 2005 | Adolygiad Gateway yn canfod pryderon ynglŷn â'r drefn lywodraethu |
| Medi 2005 | Cyhoeddi Fersiwn 0.2 o'r Achos Busnes Amlinellol |
| Rhagfyr 2005 | Cyhoeddi Fersiwn 0.3 o'r Achos Busnes Amlinellol |
| Rhagfyr 2005 | Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion yn tendro gogyfer â'u swyddfeydd yn Aberystwyth |
| Ionawr 2006 | Drafft cyntaf o'r Achos Busnes Llawn (fersiwn 0.1) – ymestyn yr Achos Busnes Amlinellol |
| Chwefror 2006 | Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion yn ymrwymo i gontractau ar wahân gogyfer â swyddfeydd Aberystwyth |
| Ebrill 2006 | Pedwar corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn uno â Llywodraeth Cymru |
| Ebrill 2006 | Cyhoeddi Fersiwn 0.4 o'r Achos Busnes Amlinellol |
| Gorffennaf 2006 | Adolygiad Gateway yn dod o hyd i ragor o bryderon ynglŷn â'r drefn lywodraethu |
| Mai 2006 | Dyfarnu contract adeiladu swyddfa Cyffordd Llandudno i HBG |
| Ionawr 2007 | Cwblhau swyddfa Merthyr Tudful |
| Mawrth 2007 | Dyddiad y Strategaeth Adleoli ar gyfer cwblhau'r broses o adleoli staff o Gaerdydd |
| Mehefin 2007 | Cyngor Sir Ceredigion yn tynnu allan o'u contract â Carillion yn Aberystwyth, Llywodraeth Cymru yn parhau â'u contract |
| Gorffennaf 2006 | Cyhoeddi Fersiwn 0.5 o'r Achos Busnes Amlinellol |
| Medi 2007 | Oedi prosiect adeiladu Cyffordd Llandudno oherwydd costau cynyddol yn arwain at derfynu'r contract â HBG |
| Tachwedd 2007 | Gwaith adeiladu'n dechrau ar swyddfa Aberystwyth |
| Rhagfyr 2007 | Cyhoeddi Fersiwn 2 o'r Achos Busnes Llawn |

| Allwedd | Coch – Rhaglen<br>Gwyrdd – prosiect Merthyr Tudful<br>Glas – prosiect Aberystwyth<br>Oren – prosiect Cyffordd Llandudno |
|---|---|
| **Dyddiad** | **Digwyddiad** |
| Rhagfyr 2007 | Dechrau ail-gaffael contract adeiladu Cyffordd Llandudno |
| Mawrth 2008 | Cyhoeddi Fersiwn 3 o'r Achos Busnes Llawn |
| Ebrill 2008 | Cynllun ymadael gwirfoddol pedair blynedd Llywodraeth Cymru yn dechrau |
| Mehefin 2008 | Cyhoeddi Fersiwn 4 o'r Achos Busnes Llawn |
| Gorffennaf 2008 | Cyhoeddi statws coch pedwerydd adroddiad Adolygiad Gateway 0 |
| Awst 2008 | Pedwerydd amcangyfrif o gost y Strategaeth Leoli yn £85.6m |
| Hydref 2008 | Diwygiadau mawr i drefn lywodraethu'r rhaglen a'r strwythur rheoli |
| Hydref 2008 | Dyfarnu contract adeiladu Cyffordd Llandudno i Pochins |
| Tachwedd 2008 | Dechrau gwaith adeiladu ar swyddfa Cyffordd Llandudno gyda'r contractwr newydd, Pochins |
| Chwefror 2009 | Adolygiad yn cymharu costau adeiladu swyddfeydd Llywodraeth Cymru a swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion yn Aberystwyth |
| Ebrill 2009 | Cyhoeddi Fersiwn 5 o'r Achos Busnes Llawn |
| Mehefin 2009 | Adolygiad Gateway yn cadarnhau bod y drefn lywodraethu a rheoli wedi gwella |
| Gorffennaf 2009 | Cwblhau adeilad Aberystwyth |
| 4/2010-3/2012 | Y cyfnod pan ddigwyddodd y rhan fwyaf o'r diswyddiadau gwirfoddol |
| Ebrill 2010 | Cwblhau swyddfa Cyffordd Llandudno |
| Awst 2010 | Prosiect Cam Dau Cyffordd Llandudno yn dechrau |
| Medi 2010 | Agor swyddfa Cyffordd Llandudno |
| Ebrill 2011 | Cwblhau prosiect Cam Dau Cyffordd Llandudno |
| Mehefin 2011 | Prifysgol Bangor yn cyhoeddi adolygiad o fanteision economaidd y Strategaeth Leoli |
| Gorffennaf 2011 | Adolygiad Gateway ar wireddu manteision |
| Rhagfyr 2011 | Cwblhau Rhaglen y Strategaeth Leoli |
| Ebrill 2012 | Portffolio Hwyluso Llywodraeth i adolygu manteision |



# Atodiad 3 – Argymhellion adroddiad y Strategaeth Adleoli

Gwnaeth adroddiad y Strategaeth Adleoli 23 o argymhellion gyda'r nod cyffredinol o gyflawni cynllun eglur ac ymarferol i adleoli y tu allan i Gaerdydd o leiaf 400 o swyddi Llywodraeth Cymru a fodolai'n barod yng Nghaerdydd dros ystod o raddfeydd erbyn 2007, gyda lle i ddatganoli ymhellach yn ystod y blynyddoedd dilynol.

Dyma argymhellion yr adolygiad:

1. Er mwyn gwneud lle i gynnydd disgwyliedig o 900 fan lleiaf yn nifer swyddi Llywodraeth y Cynulliad y tu allan i Gaerdydd erbyn 2007, dylai'r Cynulliad gaffael tair swyddfa newydd yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru, gyda lle i o leiaf 300 o gydweithwyr ym mhob un.
2. Argymhellir mewn egwyddor y dylid cadw'r swyddfeydd presennol.
3. Argymhellir y dylai gweithredu'r strategaeth adleoli gael ei arwain gan ystyriaethau'n ymwneud ag adeiladau.
4. Dylid symud meysydd gwaith i leoliadau sy'n adlewyrchu'r maes gwaith neu'n cynnwys y brif sylfaen gwsmeriaid ar ei gyfer.
5. Argymhellir y dylai pob un o'r lleoliadau newydd gynnwys o leiaf un isadran bolisi.
6. Argymhellir y dylid dehongli telerau ac amodau i staff sy'n dewis adleoli neu symud swydd o fewn pellter teithio dyddiol rhesymol mewn modd hyblyg er mwyn annog cydweithwyr i newid lleoliad.
7. Os yw Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu defnyddio adeiladau swyddfa wedi'u hadeiladu o'r newydd, argymhellir y dylai'r adeiladau anelu i gyrraedd safon BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu).
8. Argymhellir y dylai'r broses o fonitro niferoedd staff o leiafrifoedd ethnig gynnwys dadansoddiadau yn ôl lleoliad.
9. Argymhellir y dylid cyfyngu'r broses o chwilio am safle ar gyfer y tair swyddfa newydd arfaethedig i ardal Amcan 1.
10. Argymhellir y dylid lleoli'r holl swyddogaethau sy'n newydd i'r Cynulliad y tu allan i Gaerdydd, oni bai bod rhesymau gweithredol cryf dros wneud fel arall.
11. Argymhellir y dylai fod cynnydd cyson yn nifer swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil a leolir y tu allan i Gaerdydd a chynnwys o leiaf un ym mhob un o'r swyddfeydd newydd amlddefnydd a sefydlir rhwng nawr a 2007.
12. Dylai fod derbynfeydd yn y swyddfeydd a mynediad at wybodaeth y Cynulliad ar gyfer y cyhoedd ar sail 'galw heibio'.

13 Dylai fod cyfleusterau cyfarfod da yn y swyddfeydd i alluogi'r Cynulliad i gynnal mwy o gyfarfodydd/cynadleddau yn ei swyddfeydd ei hun. Dylai'r cyfleusterau hyn fod yn ddigon da i bwyllgorau ffurfiol allu cyfarfod ynddynt.

14 Dylid darparu siop un stop ar gyfer gwasanaethau canolog ym mhob swyddfa – gan greu cysylltiad lleol â phersonél, adeiladau a gwasanaethau TGCh.

15 Dylid darparu cyfleusterau TGCh ychwanegol ym mhob un o swyddfeydd y Cynulliad yn cynnwys uwchraddio cyfleusterau fideo-gynadledda'n gynyddol i allu cynnal mwy o gyfarfodydd mwy o faint drwy'r cysylltiadau hyn.

16 Wrth i waith symud allan o Gaerdydd, argymhellir y dylid rhesymoli rhywfaint ar ofod swyddfa yng Nghaerdydd, gan ganolbwyntio bron y cyfan o weithgaredd Llywodraeth y Cynulliad yn swyddfeydd Parc Cathays yn y tymor hwy (ar ôl 2007).

17 Lle sefydlir swyddfeydd newydd mwy o faint, argymhellir y dylai'r rhain gynnwys rhywfaint o ddesgiau a chysylltiadau cyfrifiadurol i swyddogion sy'n gweithio mewn mannau eraill yn y Cynulliad ac i weithwyr gartref ar sail peilot.

18 Argymhellir y dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i hyrwyddo mwy o weithio gartref mwy effeithiol.


19 Argymhellir y dylai pob maes gwaith adolygu'r amser a dreulir mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ystyried dulliau amgen o weithredu.

20 Argymhellir y dylid cynnwys cyrsiau ar reoli staff mewn mannau anghysbell yn rhaglenni hyfforddiant craidd y Cynulliad a bod hyfforddiant o'r fath yn cael ei ddarparu i bob aelod o staff uwch.

21 Lle bydd 'terfynu naturiol' yn digwydd, argymhellir y dylai pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, mewn ymgynghoriad â'r isadran noddi berthnasol yn Llywodraeth y Cynulliad, gyflwyno achos busnes sy'n cynnwys opsiwn realistig wedi'i gostio'n llawn ar gyfer lleoli swyddfeydd mewn mannau eraill yng Nghymru.

22 Argymhellir y dylai Cyrff a Noddir gynnwys dadansoddiad o ofynion a lleoliadau swyddfa yn rhan o gylch gwaith eu hadolygiadau pum mlynedd yn y dyfodol.

23 Dylid sefydlu fframwaith ar gyfer cysylltiadau lleol agosach rhwng swyddogion perthnasol Llywodraeth y Cynulliad ym mhob swyddfa a chorff sector cyhoeddus arall yn yr ardal.



# Atodiad 4 – Prosiectau cleient y strategaeth leoli

| Prosiect cleient | Amcan |
|---|---|
| Prosiectau adnoddau dynol Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno | Ysgogi'r elfennau newid busnes sy'n ymwneud â'r swyddfeydd newydd. Y prosiectau oedd y cyfryngau cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer ffyrdd newydd o weithio a symud staff. |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Trefnu gwell mynediad at gyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chyfleusterau fideo-gynadledda bwrdd gwaith. |
| Gweithio'n Ddwyieithog | Darparu cynnyrch yn seiliedig ar amgylchedd gwaith dwyieithog yn swyddfeydd newydd y Strategaeth Leoli, sut y gellid sefydlu hyn i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cyfrifoldeb statudol hwn. |
| Rheoli Cyfleusterau'r Dyfodol | Rhesymoli nifer y contractau rheoli cyfleusterau; sefydlu safon gyson ar gyfer manylebau, rheoli perfformiad a sefydlu, lle y bo modd, atebion newydd ac arloesol i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd. |
| Gweithio Hyblyg Merthyr Tudful | Adolygu'r ddarpariaeth gyfredol (Tachwedd 2011) yn swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Merthyr Tudful gyda golwg ar wreiddio arferion gweithio hyblyg ar draws y swyddfa gyfan a chlustnodi cyfleoedd ar gyfer rhesymoli'r ystâd ymhellach. |
| Cam Dau Cyffordd Llandudno | Rheoli'r broses o gau pump o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn y Gogledd yn ogystal â'r rhai y bwriadwyd eu cau yn wreiddiol. Y prif ysgogiadau oedd rheoli costau drwy leihau maint yr ystad a chynyddu lefelau defnydd yn swyddfa Cyffordd Llandudno. |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

# Atodiad 5 – Manteision y Strategaeth Leoli

Rhoddai'r Cynllun Gwireddu Manteision fanylion am y manteision a nodwyd yn Achos Busnes y Strategaeth Leoli. Categorïwyd y Manteision yn bedair thema:

- Datblygu Cynaliadwy
- Adfywio Economaidd
- Cynyddu Ymgysylltiad ac Ymwybyddiaeth
- Amgylchedd Gwaith Gwell

| Mantais | Mesur | Targed | Amseriad |
|---|---|---|---|
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | |
| Llai o safleoedd dros ben, diangen, ac anaddas ar draws Ystad Llywodraeth Cynulliad Cymru | Nifer yr eiddo ar draws yr ystâd | 67 eiddo erbyn 2012 | 2008 - 2012 |
| Cynnydd yng ngwerth ased gweddilliol y swyddfeydd newydd | Gwerth yr Ased | Dim (Gwerth sylfaenol yr ystâd £35,255,000 (2005); 2010 £92,240,000 | 2008 – 2012 |
| Adleoli nifer fwy o swyddi Llywodraeth Cynulliad Cymru y tu allan i Gaerdydd | Swyddi Llywodraeth Cymru cyfredol y tu allan i Gaerdydd | 60 y cant | 2006 – 2012 |
| Cynyddu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ddatblygu Cynaliadwy | • Ennill gradd ragorol BREEAM<br>• Cynlluniau Teithio Gwyrdd | Ennill gradd ragorol BREEAM | 2006 - 2011 |
| Llai o arbedion ar rent o ganlyniad i eiddo'n cael ei ryddhau | Faint o rent a dalwyd (£) | Dim | 2008 – diwedd y rhaglen |



| Mantais | Mesur | Targed | Amseriad |
|---|---|---|---|
| **Adfywio Economaidd** | | | |
| Mwy o gyfleoedd gwaith newydd yn y cymunedau lleol | Cyfleoedd newydd Llywodraeth Cymru ledled Cymru i bob swyddfa wrth iddi agor | Faint o swyddi newydd a recriwtiwyd | 2006 – 2010 |
| Mwy o gyfoeth yn lleol drwy gyflwyno swyddi Cynulliad wedi'u hadleoli – effaith 'gwelliant' incwm gwario | Sefydlwyd drwy astudiaeth economaidd | Dim | 2006 – ni wyddys |
| Mwy o gyfleoedd gwaith yn lleol yn ystod y camau adeiladu | Faint o gyfleoedd gwaith | Dim | 2005 – 2010 |
| Cynyddu'r broses o ailddosbarthu cyfoeth o Gaerdydd i ardaloedd amcan un | Sefydlwyd drwy astudiaeth economaidd | Dim | 2006 – ni wyddys |
| **Ymgysylltiad ac Ymwybyddiaeth** | | | |
| Mwy o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad â Llywodraeth Cynulliad Cymru | Dulliau sydd ar gael | Dim | Hydref 2009 – 2012 |
| Mwy o ymgysylltiad â'r cyhoedd | Nifer ymwelwyr ag ardaloedd mynediad cyhoeddus | Dim | Hydref 2009 – 2012 |
| Gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o Lywodraeth Cynulliad Cymru | Nifer y digwyddiadau a gynhelir yn fewnol ac yn allanol | Dim | Hydref 2009 – 2012 |
| Gwella Gwasanaeth i Gwsmeriaid | Nifer y canmoliaethau a chwynion wedi'u mesur drwy ffurflenni adborth | Dim | Hydref 2009 – 2012 |
| Datrys mwy o ymholiadau'r cyhoedd | Nifer yr ymholiadau a ddatryswyd | Dim | Hydref 2009 – 2012 |

| Mantais | Mesur | Targed | Amseriad |
|---|---|---|---|
| **Amgylchedd Gwaith Gwell** | | | |
| Gwella amgylchedd gwaith i staff | Arolwg o amgylchedd gwaith presennol staff sy'n adleoli | Parhaus | 2006 – ni wyddys |
| Arweinwyr mwy gweladwy | Arolwg o amgylchedd gwaith presennol staff sy'n adleoli | 100 y cant | 2006 – diwedd y rhaglen |
| Gall mwy o staff lynu at y polisi desg glir | Arolwg o amgylchedd gwaith presennol staff sy'n adleoli | 100 y cant | 2006 – diwedd y rhaglen |
| Mwy o feysydd gweithio hyblyg | Arolwg o amgylchedd gwaith presennol staff sy'n adleoli | 100 y cant | 2006 – diwedd y rhaglen |
| Gwasanaethau corfforaethol mwy hygyrch i staff | Hygyrchedd gwasanaethau corfforaethol | 100 y cant | 2006 – diwedd y rhaglen |
| Diogelwch a chyfrinachedd gwell o ran gwybodaeth | • Canran y staff sydd angen pasys adeilad i ddod i mewn i'r adeilad<br>• Canran y staff â mynediad i Uned Rheoli Cofnodion penodedig ar y safle | 100 y cant | 2006 – diwedd y rhaglen |
| Amgylchedd swyddfa gwell wrth i'r gofynion storio leihau | Arolwg ar yr amgylchedd gweithio cyfredol i staff sy'n adleoli | Dim | 2006 – diwedd y rhaglen |